

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD		NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR SAFONAU		STANDARDS COMMITTEE	
DYDD MAWRTH 15 RHAGFYR 2020 am 2.00 o'r gloch		TUESDAY 15 DECEMBER 2020 at 2.00 pm	
CYFARFOD RHITHIOL		VIRTUAL MEETING	
Swyddog Pwyllgor	Mrs Shirley Cooke 01248 752514	Committee Officer	

Aelodau Annibynnol / Independent Members

Dr Thomas Rhys Davies
Mrs Celyn Menai Edwards
Mr John Robert Jones
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council

Y Cyngorydd/Councillor J Arwel Roberts
Y Cyngorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils

Mr Keith Roberts
Mr Iorwerth Roberts

R H A G L E N

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 COFNODION Y CYFARFOD (Tudalennau 1 - 24)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar:-

- 17 Medi 2019
- 11 Mawrth 2020

3 DATBLYGU AELODAU (Tudalennau 25 - 30)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar ddatblygu Aelodau.

4 CWYNIION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (Tudalennau 31 - 38)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) mewn perthynas â:-

- (a) Cyngorwyr Sir, a
- (b) Cyngorwyr Tref/Cymuned
ar gyfer Chwarter 4, 2019/20, a Chwarter 1 a 2, 2020/21.

5 PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (Tudalennau 39 - 42)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar Goflyfr Côd Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Hydref - Rhagfyr 2019 (Cyfrol 23 - cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020).

6 PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU CYMRU (Tudalennau 43 - 52)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 11 Mawrth 2020.

7 PANEL DYFARNU CYMRU - CANLLAWIAU'R LLYWYDD (Tudalennau 53 - 68)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar Ganllawiau'r Llywydd a gyhoeddwyd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar (a) Anonymeiddio; (b) Datgelu, a (c) rôl y Swyddog Monitro yn achosion Panel Dyfarnu Cymru.

8 CANIATÂD ARBENNIG (Tudalennau 69 - 74)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn manylu ar y ceisiadau am Ganiatâd Arbennig a ystyriwyd gan Banel o'r Pwyllgor Safonau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 11 Mawrth 2020.

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU GAN Y CADEIRYDD (Tudalennau 75 - 76)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yng nghyfarfod y Cyngor ar 8 Medi 2020.

10

ADOLYGIAD O'R GOFRESTR DODDORDEBAU MEWN CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (Tudalennau 77 - 80)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr adolygiad sydd i'w cynnal yn y Cynghorau Tref a Chymuned, fel y nodir yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2020-21.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019

PRESENNOL:

Aelodau Annibynnol

Mr Michael Wilson (Cadeirydd)
Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)

Ms Denise Harris-Edwards
Mr John R Jones
Mrs Dilys Shaw

Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

Yn cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned

Y Cynghorydd Iorwerth Roberts
Y Cynghorydd Keith Roberts

WRTH LAW:

Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/
Swyddog Monitro
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer
Eitem 5)
Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)
Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol (ar gyfer Eitem 4)
Swyddog Datblygu AD dan Hyfforddiant (CD) (ar
gyfer Eitem 4)
Swyddog Pwyllgor (SC)

**HEFYD YN
BRESENNOL:**

Mr Thomas Rhys Davies
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd John Arwel Roberts

1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. PENODI PEDWAR AELOD CYFETHOLEDIG NEWYDD AC UN AELOD
ETHOLEDIG I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan Gadeirydd Panel Dewis y Pwyllgor Safonau
mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod tymor pedwar o'r pum aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 19 Rhagfyr 2019. Bydd y pumed aelod, Mr John Robert Jones, a benodwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn parhau yn ei rôl.

Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi dirprwyo awdurdod i Banel Dewis y Pwyllgor Safonau gynnal y broses recriwtio a dewis ar gyfer penodi aelodau newydd i'r Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod y Panel wedi llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld, a chynhaliwyd cyfweiliadau ar 29 a 30 Gorffennaf 2019. Enwebodd y Panel y pedwar aelod canlynol o'r cyhoedd i'w penodi i rôl aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau:-

Mr Thomas Rhys Davies
Mrs Celyn Menai Edwards
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

Cadarnhawyd y penodiadau gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 10 Medi 2019.

Cadarnhawyd y bydd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn parhau yn ei rôl fel cynrychiolydd y Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau tan yr etholiad nesaf yn 2022.

Mae'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes wedi rhoi'r gorau i'w swydd fel cynrychiolydd y Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau, ac mae'r Cynghorydd John Arwel Roberts wedi cymryd ei le.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed gan Banel Dewis y Pwyllgor Safonau, ac a dderbyniwyd gan y Cyngor llawn ar 10 Medi 2019:-

- **Penodi Mr Thomas Rhys Davies, Mrs Celyn Menai Edwards, Mrs Gill Murgatroyd a Mrs Sharon Warnes fel aelodau annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau o 20 Rhagfyr 2019; am hyd at ddau dymor, fel y caniateir gan statud a'r Cyfansoddiad.**
- **Pe bai swydd achlysurol arall yn codi ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi Mrs Pauline Vella i'r rôl hon yn awtomatig heb fod angen proses recriwtio arall, ar yr amod pob amser fod Mrs Vella yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y rôl.**
- **Cadarnhau y bydd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn parhau fel cynrychiolydd Cynghorydd Sir tan yr etholiad nesaf yn 2022.**
- **Cadarnhau penodiad y Cynghorydd Sir John Arwel Roberts yn aelod o'r Pwyllgor Safonau, tan yr etholiad nesaf yn 2022 yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o wasanaethu am dymor pellach.**
- **Cadarnhau y dylid rhoi awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/-Swyddog Monitro gynnwys Panel Dewis y Pwyllgor Safonau yng Nghyfansoddiad y Cyngor er mwyn osgoi'r**

angen parhaus am “ddarpariaethau arbed” yn yr adroddiad ar strwythur pwyllgorau, a gadarnheir gan y Cyngor yn ei gyfarfodydd blynyddol.

3. COFNODION CYFARFOD

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019 yn gywir.

Materion yn codi o'r cofnodion:-

Adroddodd y Swyddog Monitro bod dogfen “materion yn codi” wedi cael ei hanfon at holl aelodau'r Pwyllgor Safonau yn manylu ar y camau a gymerwyd yn unol â chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod Modern.Gov wedi ymateb i ymholiad TGCh ynghylch ychwanegu naratif at y system Modern.Gov, fel y gall aelodau cyfetholedig ychwanegu gwybodaeth o gwymplen ar gyfer 'Datganiadau o Ddiddordeb', 'Anrhegion a Lletygarwch 'a' Hyfforddiant '. Ar hyn o bryd, dim ond enwau Aelodau etholedig sydd wedi'u cynnwys ar y 'gwymplen' ar-lein.

Adroddodd y Swyddog Monitro y byddai'n costio £5000 i ddiweddarau'r system Modern.Gov i gynnwys naratif.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi ffi Modern.Gov i weithredu'r newidiadau uchod i'r system Modern.Gov.**
- **Bod y Swyddog Monitro, ar ran y Pwyllgor Safonau, yn gwneud cais am gyllid gan y Swyddog Adran 151 i ddiweddarau'r system i gynnwys yr aelodau cyfetholedig ar y 'gwymplen'.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod

4. DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad cynnydd gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar gyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau ers cyflwyno'r adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor hwn ar 13 Mawrth 2019.

Cafwyd ddiweddariad ar y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau gan y Rheolwr Datblygu AD. Dywedodd y bydd y Cynllun Datblygu yn cael ei gylchredeg i'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bob chwarter i nodi cyrsiau a fyddai'n addas ar gyfer Pwyllgorau Sgriwtini, y Pwyllgor Safonau ac aelodau cyfetholedig. Nodwyd bod y Cynllun Datblygu yn ddogfen esblygol sy'n cael ei diweddarau'n barhaus.

Amlygodd y Rheolwr Datblygu AD y pwyntiau a ganlyn:-

- Mae ffurflenni gwerthuso cyrsiau ar gael ar-lein ac ar ffurf bapur. Er bod Aelodau'n cael eu hannog i lenwi ffurflenni ar-lein, mae'r defnydd a wneir o'r ffurflenni electronig wedi bod yn gyfyngedig.
- Mae angen i aelodau gymryd cyfrifoldeb personol am gofnodi manylion ar-lein am hyfforddiant/cyrsiau y maent wedi'u mynychu / gwrthod. Anogir aelodau i gyhoeddi eu cofnodion presenoldeb ar wefan y Cyngor o dan eu proffil unigol.
- Mewn perthynas ag E-Ddysgu, mae datblygiadau wedi digwydd mewn perthynas â Phlatform E-Ddysgu'r GIG, a fydd yn golygu y bydd y system yn haws i'w defnyddio. Bydd modd cael at fodiwlau E-Ddysgu ar I-pad yn haws hefyd.
- Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth TGCh a'r Gwasanaethau Democraidaidd i gynhyrchu llawlyfr i'r Aelodau ar faterion TGCh. Trefnwyd sesiynau galw heibio i gynorthwyo Aelodau gydag unrhyw faterion TGCh.
- Bellach gellir gweld y cyflwyniad Powerpoint ar GDPR a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2019 ar MonITor. Mae sesiwn hyfforddi orfodol ychwanegol wedi'i threfnu ar gyfer yr Hydref, a gwahoddir aelodau'r Pwyllgor Safonau ac aelodau cyfetholedig i fynychu.
- Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - trefnwyd a chyflwynwyd dwy sesiwn. Mae sesiynau hyfforddi gorfodol pellach wedi'u trefnu ar gyfer yr Hydref, a gwahoddir aelodau'r Pwyllgor Safonau ac aelodau cyfetholedig.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi a derbyn y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau.**
- **Arddangos copi o'r Rhaglen Hyfforddi Aelodau Etholedig yn Iolfa'r Aelodau.**
- **Bod y Llawlyfr Sgiliau TGCh yn cael ei gylchredeg i'r Aelodau Etholedig a'r Aelodau Cyfetholedig.**
- **Gofyn i Arweinwyr Grŵp atgoffa Aelodau o'r angen i fynychu sesiynau hyfforddi gorfodol a sesiynau hyfforddi eraill.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod

5. MATERION SY'N YMWNEUD AG AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad diweddar gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd ar amrywiol faterion yn ymwneud ag Aelodau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd fod 28 o'r 30 Aelod bellach wedi cwblhau a chyhoeddi eu Hadroddiadau Blynyddol ar gyfer 2018/19 ar-lein. Dywedodd nad yw dau Aelod wedi cyflwyno eu Hadroddiadau Blynyddol am y cyfnod, a bod eu Harweinydd Grŵp wedi cael gwybod.

Nodwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd ar 25 Medi 2019, o ran trefniadau ar gyfer paratoi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd unrhyw ddisgwyliadau ar Aelodau yn dod i'r amlwg yn y Bil Llywodraeth Leol sydd ar ddod.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd y dyfarnwyd Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyfer Datblygu a Chefnogi Aelodau i'r Cyngor Sir ac fe'i cyflwynwyd yn swyddogol i'r Cyngor ym mis Gorffennaf a bydd mewn grym am gyfnod o dair blynedd.

PENDERFYNWYD nodi cynnydd fel y manylir yn yr adroddiad.

Camau Gweithredu: Dim

6. Cwynion am Ymddygiad a Gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y diweddariad chwarterol ynghylch cwynion a oedd ar ffurf matricesau ar gyfer (a) Cyngorwyr Sir, a (b) Cyngorwyr Tref a Chymuned mewn perthynas â Chwarter 4 2018/19 a Chwarter 1 2019 / 20.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) na chyflwynwyd unrhyw gwynion yn erbyn Cyngorwyr Sir Ynys Môn rhwng Ionawr a Mawrth 2019 (Chwarter 4), ac Ebrill a Mehefin 2019 (Chwarter 1).

Adroddwyd bod tair cwyn wedi'u gwneud yn erbyn Cyngorwyr Tref a Chymuned ar y matrices ar gyfer Chwarter 4; roedd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i'r gŵyn gyntaf, nid oedd yn ymchwilio i'r ail, ac roedd yn ystyried y drydedd gŵyn. O ran y matrices ar gyfer Chwarter 1, adroddwyd bod dau fater gyda'r Ombwdsmon i'w hystyried ganddo.

Mewn perthynas â'r cyntaf o'r cwynion hynny a oedd ar ôl, mae'r Ombwdsmon wedi dod i'r casgliad, yn dilyn ymchwiliad, nad oes tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad. O ran yr ail, mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi'r adroddiad ac Atodiadau 1-4.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn cylchredeg Atodiadau 1-4 i'r Cyngorau Tref a Chymuned ac Aelodau Etholedig a Chyffetholedig y Cyngor.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod

7. Penderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro yn crynhoi gwybodaeth a gyhoeddwyd am benderfyniadau Cymru Gyfan gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfrau ar gyfer Chwefror a Mai 2019.

Amlygodd y Swyddog Monitro'r canlynol o'r adroddiad:

- Pan fônt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, dylai Cyngorwyr wahanu eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol preifat oddi wrth eu rôl fel Cyngorwyr. Mewn rhai achosion bydd hyn yn osgoi gweithredu'r Côt Ymddygiad.
- Rhoddyd pwyslais ar yr angen i Gyngorwyr Cymuned ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dilyn cwyn yn erbyn Cyngorydd Cymuned a oedd wedi gwneud sylwadau a oedd yn gwahaniaethu ar sail oed a sylwadau gwahaniaethol.
- O ran y diddordebau i'w cofrestru ymlaen llaw, atgoffwyd yr Aelodau bod raid iddynt gofrestru eu diddordebau cyn pen 28 diwrnod o gael eu hethol i'r swydd, ac i ddiweddarau'r gofrestr, os bydd unrhyw newidiadau, cyn pen 28 diwrnod arall.
- Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at gwyn yn erbyn Cyngorydd gan Gyngor Cymuned Bugeildy, a fethodd â datgan mewn cyfarfod ei fod yn berchen ar dir a fyddai'n cael ei effeithio gan y mater dan sylw, gan felly dorri'r Côt. Canfu'r Ombwdsmon fod gan y mater arwyddocâd ehangach i'r gymuned ac felly ni chymerwyd unrhyw gamau.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi'r adroddiad a'r atodiadau.**
- **Yn amodol ar ymateb yr Ombwdsmon mewn perthynas â Chyngor Cymuned Bugeildy, bod y Swyddog Monitro yn ceisio gwybodaeth bellach pe bai angen gan Glerc Cyngor Cymuned Bugeildy, ar y sail y byddai gwybodaeth o'r fath yn cael ei golygu a'i rhannu'n gyfrinachol ag aelodau'r Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth yn unig.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod

8. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed ac a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 13 Mawrth 2019.

Esboniodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yr adroddwyd ar un achos, a oedd yn ymwneud â chyn-Gyngorydd Sir (Cyngorydd Cymuned ar hyn o bryd) yng Nghyngor Sir Fynwy yn torri'r Côt Ymddygiad. Nodwyd bod y Pwyllgor Safonau wedi trafod yr achos gwreiddiol yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2019 (Eitem 7 ar y rhaglen). Mae'r adroddiad cyfredol mewn perthynas â sylwadau pellach a wnaed gan y Cyngorydd yn dilyn gwrandawriad gwreiddiol Panel Dyfarnu Cymru.

Penderfynodd tribiwnlys yr achos y dylid gwrthod yr achos gan nad oedd cwyn ysgrifenedig, ac roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyfeirio'r mater at Banel Dyfarnu Cymru heb ymchwiliad. Roedd yn bryderus nad oedd yr Ombwdsmon wedi dilyn y weithdrefn gywir wrth gyfeirio'r mater yn uniongyrchol heb ymchwiliad.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r crynodeb o'r achos.

Camau Gweithredu: Dim

9. CANIATADAU ARBENNIG

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ganlyniad ceisiadau am ganiatâd arbennig a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 13 Mawrth 2019. Ar yr achlysur hwn, roedd yr holl geisiadau'n ymwneud â Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor Sir.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y ceisiadau canlynol am ganiatadau arbennig:-

- 7.3.19 – Rhoddwyd caniatâd arbennig bloc i 8 aelod o Gyngor Cymuned Llanelian i oresgyn nifer o ddiddordebau rhagfarnus gwahanol mewn perthynas â darparu addysg gynradd yn ardal Amlwch.
- 22.3.19 - Rhoddwyd caniatâd arbennig bloc i 5 Aelod o'r Pwyllgor Gwaith a chanddynt ddiddordebau rhagfarnus ar y sail eu bod yn neiniau a theidiau i blant a phobl ifanc a allai gael eu heffeithio gan benderfyniad mewn perthynas â darparu addysg ôl-16 yn y Sir.
- 29.3.19 - Rhoddwyd caniatâd arbennig cyfyngedig i'r Cynghorydd Carwyn Jones mewn perthynas â diddordebau rhagfarnus o ran darparu addysg ôl-16 yn y Sir, ar y sail ei fod yn riant i blant yn Ynys Môn ac yn gweithio i ddarparu'r addysg ôl-16.
- 18.7.19 - rhoddwyd caniatâd arbennig i'r Cynghorydd Derek Owen o Gyngor Cymuned Llanbadrig mewn perthynas â diddordebau rhagfarnus ynghylch darparu addysg gynradd yn ardal Amlwch.

PENDERFYNWYD:-

- **Bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r caniatadau arbennig a roddwyd ac ar ba seiliau ac o dan ba amgylchiadau y rhoddwyd nhw.**
- **Bod cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 7.3.19 wedi'u cadarnhau fel rhai cywir gan aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, John R Jones a Keith Roberts).**
- **Bod cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 22.3.19 wedi'u cadarnhau fel rhai cywir gan aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, Denise Harris-Edwards a John R Jones).**
- **Bod cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 29.3.19 wedi'u cadarnhau fel rhai cywir gan aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, Denise-Harris Edwards a John R Jones).**
- **Bod cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 18.7.19 wedi'u cadarnhau fel rhai cywir gan aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, John R Jones a Keith Roberts).**

Cam Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod

10. ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU DIDDORDEBAU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG A CHYFETHOLEDIG CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr uchod.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod yr adolygiad o'r tair Cofrestr o Ddiddordeb ar gyfer Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig wedi'i gynnal ym Mehefin / Gorffennaf 2019 gan 5 aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau. Cynhaliwyd yr adolygiad o Gofrestrau o Ddiddordebau'r 5 aelod annibynnol gan gynrychiolwyr y Cyngor Tref a Chymuned o'r Pwyllgor Safonau.

Nodwyd bod y Pwyllgor yn hapus yn gyffredinol gyda chanlyniad yr adolygiad, a bod y sefyllfa ychydig yn well nag yn flwyddyn flaenorol.

Codwyd y pwyntiau canlynol fel materion sydd angen sylw: -

- Nid yw'r holl Adroddiadau Blynyddol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Nid oes gan aelodau cyfetholedig y cyfleuster i gofnodi eu cofnodion hyfforddi ar-lein (trafodwyd y mater yn Eitem 3 - Cofnodion).
- Gan gyfeirio at y Gofrestr Sefydlog o Ddiddordebau, codwyd pryderon nad yw'r wybodaeth a gofnodir yn ddigon penodol.
- Dylai'r Gwasanaeth TGCh gynnwys dolen i'r Caniatadau Arbennig a roddwyd i aelodau o dudalen bywgraffiad/adroddiad blynyddol pob aelod.

Yn dilyn cyfarfod anffurfiol o'r aelodau annibynnol ar 19 Gorffennaf 2019 a chynrychiolwyr y Cyngor Tref a Chymuned ar 28 Mehefin 2019, mae llythyr cyffredinol o gyngor (Atodiad 1) wedi'i ddrafftio, a fydd yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor gyda hyn. Adroddodd y Cyfreithiwr fod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi mynychu cyfarfod o'r Arweinwyr Grŵp ar 5 Medi 2019 i drafod materion sy'n codi o'r adolygiad o'r Cofrestrau a chynnwys Atodiad 1.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo cynnwys Atodiad 1, a chytuno i rannu'r llythyr o gyngor gydag Aelodau Cyfetholedig ac Etholedig y Cyngor.**
- **Bod y camau a nodwyd yn Adrannau 2.2.1 a 2.2.4 yr adroddiad yn cael eu codi gyda'r Gwasanaeth TGCh/Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.**

Cam Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod

11. ADRODDIAD FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU O'R CYFARFOD AR 24 MEHEFIN 2019

Cyflwynwyd - adroddiad ar Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd gan Gyngor Sir y Fflint ar 24 Mehefin 2019.

Adroddodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Is-Gadeirydd wedi mynychu'r cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd fod yr Ombwdsmon wedi rhoi cyflwyniad, a oedd yn canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb a rhywedd; a phwerau newydd yr Ombwdsmon.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar Gyd-Bwyllgor Safonau Gogledd Cymru. Gofynnodd yr Is-Gadeirydd am eglurhad ar fanteision ac anfanteision posib cyd-bwyllgorau o'r fath, a dywedodd fod angen trafod y mater hwn ymhellach. Cafwyd trafodaeth wedyn ond ni ddaethpwyd i ganlyniad pendant.

Teimlai'r Cadeirydd fod y cofnodion yn anghywir mewn rhai agweddau, ac nad oeddent wedi cynnwys yr holl bwyntiau.

PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd, ac y byddai'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn hysbysu swyddogion o unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i'r cofnodion.

12. YMATEB GAN Y CYNGHORAU CYMUNED YNGHYLCH:-

12.1 Adolygiad o Gofrestrau Cyngorau Cymuned yn 2018/19

12.2 Hyfforddiant ar gyfer Cyngorwyr Cymuned a Chlercod

Cyflwynwyd - adroddiad diweddar gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

Cynhaliodd y Pwyllgor Safonau adolygiad o 5 Cyngor Tref a Chymuned ym mis Rhagfyr 2018/Ionawr a Chwefror 2019 i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod adroddiad cyffredinol wedi'i gylchredeg i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar ganfyddiadau'r Adolygiad o'r Cofrestrau, gyda chais i'r Clercod ddwyn cynnwys yr adroddiad hwn i sylw holl aelodau eu Cyngorau Tref a Chymuned, a'i gynnwys ar raglen eu cyfarfod nesaf, gyda chopi o'r cofnodion i'w anfon wedyn at y Pwyllgor Safonau.

Nodwyd nad oedd 22 allan o 40 o Gynghorau Tref a Chymuned wedi ymateb.

Anfonwyd gohebiaeth bellach at Gynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â hyfforddiant. Nodwyd nad oedd 23 allan o 40 o'r Cyngorau wedi ymateb erbyn 31 Gorffennaf 2019.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yn yr Atodiadau i'r adroddiad.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Glercod Cyngorau Tref a Chymuned yn mynegi diolchgarwch y Pwyllgor i'r rheini sydd wedi ymateb yn gadarnhaol, ac yn cadarnhau na chynhelir adolygiad o'r Cyngorau hynny am y 2 flynedd nesaf o leiaf.**

- **Bod y Pwyllgor Safonau newydd yn cymryd y wybodaeth hon i ystyriaeth wrth ddewis Cyngorau Tref a Chymuned i'w hadolygu yn y blynyddoedd i ddod.**

Cam Gweithredu: Fel y nodir uchod

13. ADOLYGU CYNSEILIAU/NODIADAU BRIFFIO I'W CYMERADWYO GAN Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr uchod.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod y Pwyllgor Safonau wedi cytuno y dylid adolygu'r Nodiadau Briffio ar gyfer Cyngorwyr Tref a Chymuned mewn perthynas â Chaniatadau Arbennig.

Cododd yr Is-Gadeirydd fater ynghylch Pwynt 9 ar y Nodyn Briffio ar gyfer Caniatadau Arbennig, sy'n cyfeirio at anabledd. Dywedodd y **cyfeirir at anabledd fel 'anallu' ar y rhaglen Gymraeg, sy'n cyfieithu fel 'inability' yn hytrach na'r gair cywir 'anabledd'**. Cadarnhawyd mai'r geiriad yw'r un a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth ac mae cadarnhad a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn nodi mai anallu ydyw h.y. anallu statudol (yn hytrach nag anabledd personol).

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cadarnhau'r diwygiadau i'r Nodiadau Briffio ar Ganiatadau Arbennig fel y dangosir yn Atodiadau 1 a 2.**
- **Anfon Atodiad 1 at Gyngorau Tref a Chymuned, gyda chais i'r Clercod ei ddwyn i sylw'r aelodau, a bod Atodiad 2 yn cael ei ddsbarthu i aelodau etholedig a chyfetholedig CSYM a bod y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei huwchlwytho i'r system fewnrwyd yn unol â hynny.**
- **Cadarnhau'r diwygiadau i'r Nodyn Methodoleg ar Adolygu Cofrestrau yn Atodiad 3.**
- **Bod y Nodyn Methodoleg ar Adolygu Cofrestrau yn Atodiad 4 yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw adolygiadau a gynhelir mewn Cyngorau Tref a Chymuned yn y dyfodol.**
- **Cadarnhau mabwysiadu Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau gyda'r nodyn diwygiadau anodedig yn Atodiad 5.**
- **Mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl gyda'r diwygiadau anodedig a nodir yn Atodiad 6, a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.**

Cam Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod

14. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-

“Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 15, oherwydd ei fod yn golygu datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn unol â pharagraff 4.2.10.2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

15. YSTYRIED YR YMATEB A DDERBYNIWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN LLYTHYR DYDDIEDIG 13 AWST 2019

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar benderfyniadau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfrau Côd Ymddygiad.

O ganlyniad i'r adroddiad a gyflwynwyd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019, penderfynodd y Pwyllgor Safonau ofyn am wybodaeth bellach gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Derbyniwyd ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn egluro'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys y llythyr cychwynnol yn Atodiad 1, a'r ymateb a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn Atodiad 2.

Diolchodd y Cadeirydd i holl aelodau'r Pwyllgor Safonau am eu cymorth a'u cefnogaeth dros yr wyth mlynedd diwethaf. Diolchodd hefyd i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes am ei gyfraniad ardderchog i'r Pwyllgor Safonau.

Diolchodd aelodau unigol y Pwyllgor Safonau i'r Cadeirydd yn bersonol am ei gefnogaeth a'i arweiniad dros y blynyddoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm

**MR MICHAEL WILSON
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2020

PRESENNOL: Aelodau Annibynnol

Mr John R Jones (Cadeirydd)
Mr Thomas Rhys Davies (Is-gadeirydd)

Mrs Celyn Menai Edwards
Mrs Gill Murgatroyd

Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Y Cynghorydd J Arwel Roberts

Yn cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned

Y Cynghorydd Keith Roberts

WRTH LAW: Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer Eitem 3)
Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)
Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol (MW) (ar gyfer Eitem 4)
Swyddog Datblygu AD dan Hyfforddiant (CD) (ar gyfer Eitem 4)
Swyddog Pwyllgor (SC)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Iorwerth Roberts (Cyngorau Tref a Chymuned)
Mrs Sharon Warnes

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol, gan estyn croeso arbennig i aelodau newydd y Pwyllgor Safonau. Dywedodd nad oedd y Cynghorydd Iorwerth Roberts a Mrs Sharon Warnes yn dda, a dymunodd wellhad buan iddynt.

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. COFNODION Y CYFARFOD

Cyflwynwyd i'w cadarnhau, cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn:-

- 17 Medi 2019
- 6 Chwefror 2020

Adroddodd y Cadeirydd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019 yn cael eu cyflwyno heddiw oherwydd nad oedd cworwm yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf. Gan fod aelodau'r Pwyllgor yr oedd angen iddynt gadarnhau'r cofnodion yn absennol heddiw, cyflwynir y cofnodion i'w cadarnhau yn awr yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.

Cadarnhawyd fel rhai cywir cofnodion cyfarfod Arbennig y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020.

Gofynnwyd pam fod presenoldeb aelodau'r Pwyllgor ar wefan y Cyngor yn cael ei gofnodi fel 'mynychwyd' yn hytrach na 'presennol', a gofynnwyd a fyddai modd newid hyn.

PENDERFYNWYD y byddai'r Swyddog Monitro yn trafod â'r adran TGCh a oes modd newid y term a ddefnyddir i gofnodi presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd i 'presennol'.

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.

3. MATERION SY'N YMWNEUD AG AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad diweddar gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar amryw o faterion yn ymwneud ag Aelodau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y gofynnwyd i Aelodau gwblhau adroddiadau blynyddol ar gyfer y cyfnod 2018/19. Hyd yma, mae 28 o Aelodau wedi cyhoeddi eu hadroddiadau a gellir eu gweld ar y we.

Nodwyd fod Arweinyddion Grwpiau wedi cael eu diweddarar ar drefniadau ar gyfer adroddiadau blynyddol 2019/20, a bydd Aelodau'n derbyn y pecyn hwn ym mis Mawrth i'w gwblhau erbyn diwedd Ebrill, gyda'r adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin. Awgrymwyd fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd yr Arweinyddion Grwpiau yn y dyfodol i drafod materion perthnasol, gan gynnwys adroddiadau blynyddol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar lwfansau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2020/21 i Aelodau ac aelodau lleyg. Nodwyd y bu cynnydd bychan yn y taliadau sylfaenol i Aelodau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod darpariaeth yn y fframwaith i ad-dalu costau gofal plant a chostau gofal i'r henoed. Ychydig o Aelodau sy'n defnyddio'r ddarpariaeth, ac anogir Aelodau i fanteisio ar y gefnogaeth ariannol. Cyflwynir adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd maes o law, ac yna i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y Bil Drafft Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Tynnodd sylw at gyhoeddi cyfeiriadau Aelodau ar wefannau Cyngorau, a chyfeiriodd at bryderon am y mater hwn a godwyd yn flaenorol

gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Rhagfyr 2019, ac yn genedlaethol. Dywedodd fod 21 Aelod o Gyngor Sir Ynys Môn wedi gofyn i'w cyfeiriadau beidio â chael eu rhannu'n gyhoeddus. Daethpwyd i'r casgliad y byddai'r Cyngor yn cyhoeddi enwau'r Aelodau hynny yn unig yn y dyfodol, ac yn defnyddio cyfeiriad y Cyngor fel pwynt cyswllt.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar p'un a fyddai'r un rheol yn berthnasol yn ystod cyfnod etholiadau mewn perthynas â chyfeiriadau ymgeiswyr. Nodwyd y gellid defnyddio cyfeiriad neu e-bost y Cyngor fel pwynt cyswllt i bwrpasau etholiad. Bydd papurau enwebu yn parhau i ddangos cyfeiriadau oni bai y derbynnir ceisiadau i wneud newidiadau i'r system bresennol.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad.**
- **Bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd Arweinyddion Grwpiau maes o law i drafod materion perthnasol, gan gynnwys Adroddiadau Blynyddol Aelodau.**

Gweithredu: Fel y nodir uchod.

4. DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd gan y Swyddog Datblygu AD dan Hyfforddiant a'r Rheolwr Datblygu AD ar gyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau ers yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 17 Medi 2019.

Dywedodd y Swyddog Datblygu AD dan Hyfforddiant fod y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau yn nodi'r sesiynau hyfforddi sydd ar gael i Aelodau ar hyn o bryd. Mae'r tîm AD yn gweithio'n agos â'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac uwch reolwyr i nodi hyfforddiant addas i Aelodau. Mae adborth gan Aelodau ar gyrsiau y maent wedi'u mynychu yn cael ei werthuso i ganfod a lwyddodd yr hyfforddiant i ddiwallu anghenion y gynulleidfa, ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol ar gyfer unigolion. Nodwyd fod y Cynllun Datblygu (sy'n esblygu ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd) yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bob chwarter, er gwybodaeth.

Anogir Aelodau i ddefnyddio pecynnau E-ddysgu ac mae cefnogaeth ddigidol ar gael i Aelodau ar faterion TGCh. Mae canllawiau ar gael e.e. ar ddefnyddio I-Pads, mynediad i'r llwyfan E-ddysgu, ac mae'r tîm TGCh yn cynnal sesiynau 'galw i mewn' rheolaidd ar gyfer Aelodau.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu AD y gofynnir i Aelodau gwblhau ffurflenni arfarnu cyrsiau ar ôl iddynt dderbyn hyfforddiant. Dywedodd fod y ffurflenni'n cael eu dadansoddi er mwyn penderfynu ar anghenion hyfforddi pellach Aelodau unigol. Nodwyd fod staff AD yn asesu anghenion hyfforddi Aelodau drwy'r adborth a dderbynnir yn eu Cynlluniau Datblygu Personol.

Mynegwyd pryder nad oes cyfleusterau i aelodau lleyg gofnodi eu presenoldeb mewn cyfarfodydd ar-lein. Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Pwyllgor Safonau wedi edrych ar yr opsiynau sydd ar gael gyda'r adran TGCh a'r Swyddog Adran 151 yn barod, a daethpwyd i'r casgliad na fyddai'n gost effeithiol i'r Cyngor fabwysiadu'r cyfleusterau hyn. Adroddodd y Rheolwr Datblygu AD y byddai'n edrych ar y mater o gofnodi presenoldeb ar gyrsiau hyfforddiant yn ganolog ar y system AD ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

Roedd Mrs Sharon Warnes, aelod o'r Pwyllgor Safonau, wedi gofyn am gael cynnwys 'Asesiad Risg' yn y Rhaglen Datblygu Aelodau. Nid oedd y Pwyllgor Safonau yn glir ynghylch cyd-destun y risg yr oedd Mrs Warnes yn cyfeirio ato. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidd yn gofyn am eglurhad ar y mater gan dîm Archwilio'r Cyngor.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar p'un ai yw ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir yn fewnol yn cael ei arfarnu'n allanol. Nodwyd fod Adnoddau Dynol yn defnyddio ffurflenni arfarnu i gael adborth gan Aelodau ac aelodau cyfetholedig sy'n mynychu hyfforddiant. Yn ogystal, yn aml bydd aelodau o staff AD yn bresennol yn y sesiynau hyfforddi. Nodwyd hefyd y bydd swyddogion AD yn cysylltu ag awdurdodau eraill i drafod darparwyr hyfforddiant cyn cyflogi darparwyr allanol. Mae cyswllt â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) hefyd, er mwyn derbyn cyngor ac arweiniad ar ddarpariaeth hyfforddiant. Lle bynnag y bo'n bosib, ystyrir yr opsiwn o ddefnyddio swyddogion i ddarparu hyfforddiant.

Er yr anogir Aelodau i fynychu sesiynau hyfforddiant, atgoffodd y Cynghorydd J Arwel Roberts mai dim ond rhai cyrsiau sy'n orfodol. Os yw Aelodau'n gweithio'n llawn amser, dywedodd eu bod yn aml yn gorfod gwrthod gwahoddiadau i gyfarfodydd a sesiynau hyfforddi.

Os yw aelod yn gwrthod gwahoddiad i hyfforddiant, cofnodir hyn fel absenoldeb a chodwyd pryderon am hyn. Cyfeirir at hyn yn yr adroddiadau blynyddol. Wrth drefnu hyfforddiant, mae'r tîm AD yn hyblyg o ran amseriad sesiynau hyfforddi er mwyn cydnabod fod gan rai Aelodau Etholedig swyddi ac i gymryd ymrwymïadau Aelodau i ystyriaeth.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod y Bil newydd yn datgan fod Arweinyddion Grwpiau'n gyfrifol am berfformiad eu Haelodau, gan gynnwys hyfforddiant. Dywedodd fod pob Aelod yn cael Adolygiad Datblygiad Personol yn flynyddol ac y dylai Arweinyddion Grwpiau dargedu'r hyn sy'n bwysig i Aelodau, a barnu eu perfformiad yn erbyn eu hanghenion.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi'r Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau a'r sylwadau a gyflwynwyd.**
- **Bod y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd yn cysylltu â thîm Archwilio'r Cyngor i ofyn am eglurhad ar y mater 'Asesiad Risg' a godwyd gan aelod o'r Pwyllgor Safonau.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.

5. HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU O'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y gofynion hyfforddi ar gyfer Aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Safonau.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro grynodeb manwl o bob pennawd yn y cynllun hyfforddi arfaethedig, a nodwyd fel rhai hanfodol neu fuddiol i aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Cyflwynwyd yr opsiynau hyfforddi i'r Pwyllgor Safonau roi sylwadau arnynt, a fydd yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.

Cytunodd y Pwyllgor Safonau i gynnwys y penawdau canlynol yn y cynllun hyfforddi:-

- Côt Ymddygiad
- Caniatâd Arbennig
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru / Panel Dyfarnu Cymru – adolygu achosion
- Cyfansoddiad CSYM
- Cyfryngu yng nghyd-destun y Protocol Datrysiaid Lleol
- Gwrandawiaidau'r Pwyllgor Safonau (i'w trefnu yn ôl yr angen)
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelwch Seibr
- GDPR
- Iechyd a Diogelwch
- Cadeirio Pwyllgorau
- Diogelu (Sylfaenol)

Adroddodd y Swyddog Monitro fod sesiynau Cadeirio ar y cyd yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd ar draws Gogledd Cymru. Awgrymwyd a chytunwyd y byddai'r Swyddog Monitro yn cysylltu â Swyddogion Monitro eraill yng Nghonwy a Gwynedd i holi a fyddai ganddynt ddi-ddordeb mewn cynnal sesiwn Gadeirio ar y cyd rhwng y tri awdurdod lleol.

PENDERFYNWYD:-

- **Bod y Pwyllgor Safonau'n cytuno fod hyfforddiant ar y pynciau uchod yn briodol ac yn ddigonol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau.**
- **Bod y Swyddog Monitro'n cysylltu â Swyddogion Monitro eraill yng Nghonwy a Gwynedd gyda golwg ar gynnal sesiwn Gadeirio ar y cyd rhwng y tri awdurdod lleol.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.

6. **CWYNIION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y diweddariad chwarterol ar gwynion ar ffurf tablau ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref/Cymuned.

Adroddodd y Swyddog Monitro y gwnaed un gŵyn yn erbyn Cynghorydd Sir gan aelod o'r cyhoedd rhwng mis Gorffennaf a Medi 2019 (Chwarter 2), a phenderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio iddi. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorwyr Tref/Cymuned yn ystod yr un cyfnod.

Ni wnaed cwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir yn ystod y cyfnod Hydref i Ragfyr 2019 (Chwarter 3). Gwnaed 2 gŵyn yn erbyn Cynghorwyr Tref/Cymuned gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod yr un cyfnod, a phenderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio iddynt. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion pellach ers mis Rhagfyr 2019. Nodwyd, er gwybodaeth, bod yr Ombwdsmon yn hysbysu'r Aelodau etholedig a'r Pwyllgor Safonau pan wneir cwyn yn eu herbyn.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gwynion a ddatryswyd yn fewnol gan y Cyngor Sir a gofynnodd y Pwyllgor Safonau am enghreifftiau fel astudiaethau achos. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n fwy na bodlon i rannu copïau wedi eu golygu o achosion unigol gyda'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi cynnwys yr adroddiad ac Atodiadau 1 – 4.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn rhannu Atodiadau 1 – 4 gydag Aelodau ac aelodau cyfetholedig y Cyngor a Chlercod Cynghorau Tref/Cymuned.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn rhannu fersiynau wedi eu golygu o gwynion a dderbyniwyd yn erbyn Aelodau o'r Cyngor a Chynghorau Tref/Cymuned gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.

7. **PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar Goflyfr chwarterol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o gwynion Côt Ymddygiad ar gyfer Medi a Hydref 2019.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro grynodedb o wybodaeth a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon, a dywedodd y byddai'n paratoi cylchlythyr i aelodau a Chlercod Cynghorau Tref/Cymuned yn tynnu sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad.

Nodwyd fod y Pwyllgor Safonau yn gofyn bob blwyddyn i Gynghorau Tref/Cymuned ddatblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer eu haelodau etholedig a Chlercod. Mae rhai Cynghorau Tref/Cymuned wedi cwyno nad ydynt yn gallu fforddio hyfforddiant, er bod arian ar gael drwy eu praesept. Nodwyd fod Un

Llais Cymru'n cynnig hyfforddiant i aelodau Cyngorau Tref/Cymuned a bod dolenni i gyrsiau hyfforddiant ar gael ar eu gwefan.

Dyweddodd y Cadeirydd y bydd yn orfodol i Gyngorau Tref a Chymuned sefydlu rhaglen hyfforddi dan y Bil newydd, ac y bydd rôl i'r Pwyllgor Safonau adolygu hyfforddiant a sicrhau fod y gofynion yn cael eu diwallu. Codwyd pryderon nad oes gan rhai Cyngorau Tref/Cymuned wefan lle gallant gyhoeddi eu rhaglenni a'u cofnodion, sy'n ofyniad statudol.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi'r adroddiad a'r atodiadau.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn anfon cylchlythyr ar ran y Pwyllgor Safonau at Aelodau a Chlercod Cyngorau Tref/Cymuned yn tynnu sylw at bwyntiau allweddol a godwyd yn y cyfarfod heddiw.**
- **Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn atgoffa Cyngorau Tref/Cymuned fod Un Llais Cymru yn cynnig cyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys gwefan gyda dolenni a all fod yn ddefnyddiol i aelodau a Chlercod.**
- **Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei ddwyn i sylw Aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y Cyngor hwn.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.

8. PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) mewn perthynas â dau benderfyniad diweddar a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 17 Medi 2019.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) fod yr achos cyntaf yn ymwneud â Chynghorydd o Gyngor Sir Powys a oedd wedi torri'r Côt Ymddygiad. Ystyriwyd fod yr honiad yn rhy ddifrifol i beidio â chymryd camau, ac roedd y Tribiwnlys yn ystyried mai gwaharddiad am gyfnod o bedwar mis oedd y gost fwyaf priodol.

Gan fod yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r achos hwn at y Panel Dyfarnu yn hytrach na'i gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Safonau, mae'n debygol y byddai'r Ombwdsmon yn siomedig â'r canlyniad hwn, ac y byddai wedi disgwyl i'r aelod gael ei wahardd am o leiaf chwe mis.

Mae'r ail achos yn cyfeirio at Gynghorydd o Gyngor Sir Fflint a oedd wedi torri'r Côt Ymddygiad dan dri phennawd. Roedd y Tribiwnlys yn ystyried fod dau o'r honiadau yn rhai difrifol ac yn ystyried mai gwaharddiad am gyfnod o dri mis oedd y gost fwyaf priodol. Dywedodd y Cyfreithiwr fod yr achwynydd wedi newid ei datganiad yn ystod y Tribiwnlys. Gan fod y Cynghorydd wedi cydnabod ei fethiant i lynu at y Côt, a'i fod wedi mynegi edifeirwch dwys am ei gamymddygiad, roedd y Tribiwnlys o'r farn fod y gost yn briodol. Pe na bai tystiolaeth yr achwynydd wedi newid gallai'r cynghorydd fod wedi cael ei wahardd am gyfnod hirach.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi cynnwys y crynodebau achosion.**
- **Bod cynnwys y crynodebau achosion yn cael eu dwyn i sylw Aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y Cyngor hwn ac aelodau Cyngorau Tref/Cymuned.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.

9. CYFARWYDDYD YMARFER GAN BANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar Gyfarwyddyd Ymarfer Panel Dyfarnu Cymru mewn perthynas â'r prosesau sy'n llywodraethu gweithdrefnau Panel Dyfarnu Cymru.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod Panel Dyfarnu Cymru wedi anfon canllawiau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Dywedodd y bydd y Panel yn cyflymu'r amserlen ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i bersonau a gyhuddir ymateb i hysbysiad y Panel o achos yn eu herbyn. Nodwyd fod rhaid i'r person a gyhuddir ymateb i'r achos hwnnw ymhen 21 diwrnod, ac na chaniateir ymestyn y cyfnod hwnnw yn arferol.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi cynnwys y Cyfarwyddyd Ymarfer.**
- **Bod cynnwys y Cyfarwyddyd Ymarfer yn Atodiad 1 yn cael ei ddwyn i sylw Aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y Cyngor hwn ac aelodau Cyngorau Tref/Cymuned.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.

10. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Ni dderbyniwyd ceisiadau am ganiatâd arbennig yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 17 Medi 2019, a dyddiad cyhoeddi'r agenda hwn.

11. PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar Brotocol Datrysiad Lleol Cyngor Sir Ynys Môn a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2018.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) mai amcan yr Ombwdsmon yw annog awdurdodau lleol i ddelio â chwynion lefel isel am gwynion eu hunain, a lleihau nifer y cwynion a gyfeirir at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Diweddarwyd y Protocol Datrysiad Lleol drafft yn Atodiad 2 yr adroddiad i adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol o ran sut y gweithredwyd Datrysiad Lleol yn

ddiweddar ac ehangu ystod y sefyllfaoedd sy'n berthnasol dan y Protocol. Nodwyd y cyflwynwyd achosion i'r Pwyllgor Safonau yn y gorffennol sydd â seiliau ehangach na'r ddwy sail a nodir yn y Protocol presennol.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) y gall y Cadeirydd ddefnyddio ei ddisgresiwn wrth adolygu cwyn a hysbysu'r parti/partion dan sylw o'r broses, os yw'n credu fod yr achos yn rhy ddifrifol i ddelio ag ef dan y Protocol. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ceisio symud oddi wrth 'gwynion' a 'phryderon' er mwyn dangos proses gyfryngu rhwng y partion, gyda chymorth Aelod o'r Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Swyddog Monitro y bydd holl Aelodau'r Pwyllgor Safonau'n derbyn hyfforddiant cyfryngu o fewn cyd-destun Protocol Datrysiad Lleol y Cyngor hwn ym mis Mai/Mehefin 2020, yn ddibynnol ar argaeledd.

Trafododd y Pwyllgor Safonau gynnwys y Protocol drafft gan gyflwyno eu sylwadau a oedd yn cynnwys y pwyntiau gweithredu a ganlyn:-

- Ynglŷn â Pharagraff 11.8, gofynnwyd a yw 14 diwrnod yn amser digonol i hysbysu'r Cadeirydd/Is-gadeirydd ac i ymchwilio'r gŵyn. Cytunodd y Pwyllgor Safonau y byddai gan y Cadeirydd ddisgresiwn i benderfynu p'un ai i ystyried pryder a godir tu allan i'r cyfyngiad amser hwn.
- Cyfeiriodd aelod o'r Pwyllgor Safonau at y defnydd o 'hi/o' ym Mharagraffau 12 a 13 y Protocol yn hytrach na 'nhw'. Gofynnodd yr aelod i 'nhw' gael ei ddefnyddio i gyfeirio at bersonau yn y dyfodol er mwyn bod yn niwtral o ran y rhywiau.

PENDERFYNWYD:-

- **Derbyn y Protocol Datrysiad Lleol (yn unol ag Atodiad 2) a chynnwys y newidiadau uchod yn y Protocol.**
- **Nodi y bydd y Pwyllgor Safonau yn derbyn hyfforddiant cyfryngu yng nghyd-destun y Protocol Datrysiad Lleol ym mis Mai/Mehefin 2020, yn amodol ar argaeledd.**
- **Derbyn bod yr amser a ganiateir i gyflwyno cwyn yn cynnwys cyfeiriad at ddisgresiwn y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd.**
- **Bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cyflwyno'r Protocol Datrysiad Lleol i Arweinyddion Grwpiau a'r Cyngor Sir maes o law.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.

12. BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU)

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar gynigion y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, ynghylch sut mae Awdurdodau Lleol yn gweithredu ac etholiadau'n cael eu gweinyddu.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar brif bwyntiau'r Bil gan roi crynodeb o'r tri maes diddordeb sy'n rhan o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Safonau:-

2.1.1 - Mae dyletswydd ar Arweinyddion Grwpiau i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan eu Haelodau. Bydd y Pwyllgor Safonau'n gyfrifol am sicrhau fod Arweinyddion Grwpiau'n cael mynediad at gyngor a hyfforddiant i gefnogi'r dyletswyddau hyn, a monitro cydymffurfiaeth Arweinyddion Grwpiau dan y ddarpariaeth hon, fel y gwnaed yn y gorffennol.

2.1.2 – Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau eisoes yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ym mis Mai bob blwyddyn; mae angen sicrhau fod adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys y materion a restrir yn y ddeddfwriaeth newydd hefyd. Bydd angen ystyried cyfrifoldebau Cyfansoddiadol y Pwyllgor Safonau o ganlyniad i'r datblygiad hwn.

Nodwyd y cafwyd adborth gan awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â chynnwys eu Rhaglen Waith ar gyfer yr adroddiadau blynyddol, a chysylltwyd â'r Ombwdsmon i dderbyn ei sylwadau. Roedd ei ymateb yn gadarnhaol a chafwyd y dyfyniad a ganlyn gan ei swyddfa:-

“Byddai'r unig awgrym y byddem yn ei wneud yn ymwneud â'r Cyngorau Tref/Cymuned yn eich ardal. Mae'r Ombwdsmon yn ystyried y byddai'n arbennig o ddefnyddiol petai'r Pwyllgor Safonau yn ffafrio cynnwys tasgau ychwanegol a allai gynorthwyo i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel yn y Cyngorau hyn. Efallai y byddech yn dymuno ystyried cynnwys cam penodol i hyrwyddo'r hyfforddiant Côt Ymddygiad ymysg aelodau'r Cyngorau hyn. Yn yr un modd, rydym yn ymwybodol o Bwyllgor Safonau lle mae eu haelodau'n mynychu cyfarfodydd y Cyngorau Tref/Cymuned yn eu hardal o bryd i'w gilydd i arsylwi safonau ymddygiad yr aelodau. Yn yr un modd, rydym yn ymwybodol o un arall sy'n ymgysylltu â Chadeiryddion Cyngorau o'r fath o dro i dro i drafod y Côt a safonau ymddygiad yn gyffredinol.”

2.1.3 – Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned ddatblygu cynlluniau hyfforddi. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau ystyried y mater hwn (fel y gwnaeth yn flaenorol) wrth gynnal adolygiadau o Gynghorau Tref/Cymuned.

Awgrymodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor maes o law.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad yn Atodiad A.

Gweithredu: Dim

13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

O dan Adran 100 (A)(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'r wasg a'r cyhoedd i gael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod trafodaeth ar yr eitem hon ar y sail ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth gyfrinachol. Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu gwybodaeth a roddir i'r Cyngor gan Adran y Llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu cyhoeddus neu wybodaeth na ellir ei datgelu'n gyhoeddus trwy Orchymyn Llys. Nid yw'r gwaharddiad yn destun Prawf Budd y Cyhoedd.

14. I YSTYRIED YR YMATEB A DDERBYNIWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN LLYTHYR DYDDIEDIG 3 HYDREF 2019

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Roedd y Pwyllgor Safonau wedi gofyn am wybodaeth bellach mewn perthynas ag adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Medi 2019 yng Nghoflyfrau Côt Ymddygiad yr Ombwdsmon.

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ar y pryd at yr Ombwdsmon ar 27 Medi 2019, a derbyniwyd yr ymateb ar 3 Hydref 2019.

PENDERFYNWYD:-

- Nodi cynnwys Atodiadau 1 a 2.
- Nodi a derbyn casgliadau'r Ombwdsmon ynglŷn â'r achos.

Gweithredu: Dim

15. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohono yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

16. ADOLYGIADAU A GYNHALIWYD YN DILYN ADRODDIADAU GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU (SAC)

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr adolygiadau a gynhaliwyd mewn Cyngorau Cymuned yn dilyn cyhoeddi adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) er bod y mwyafrif o gynnwys adroddiadau SAC tu allan i gyfrifoldebau'r Pwyllgor Safonau, gallai rhai materion llywodraethiant arwain at dorri'r Côt Ymddygiad i Aelodau, sydd wrth gwrs yn un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Safonau.

Nodwyd yr anfonwyd llythyrau cychwynnol at glercod pob cyngor cymuned ym mis Mai 2019 yn cynnig adolygiadau ar yr un telerau ag y bydd y Pwyllgor Safonau yn arfer cynnal ei adolygiadau o'r Gofrestr o Ddiddordebau. Cynhaliodd y Pwyllgor Safonau adolygiadau ym mis Gorffennaf a Hydref 2019 ac anfonwyd llythyrau personol at bob cyngor cymuned a adolygwyd.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi'r adroddiad a'r atodiadau.**
- **Nodi'r camau a gymerwyd gan y Pwyllgor Safonau yn dilyn cyhoeddi adroddiadau diddordeb cyhoeddus SAC.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn rhoi adborth i SAC ar ganfyddiadau'r Pwyllgor Safonau.**

Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm

**MR JOHN R JONES
CADEIRYDD**

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	15 RHAGFYR 2020
TEITL YR ADRODDIAD:	DATBLYGU AELODAU
ADRODDIAD GAN :	RHEOLWR HYFFORDDI – ADNODDAU DYNOL
SWYDDOG CYSWLLT :	MIRIAM WILLIAMS
PWRPAS YR ADRODDIAD:	RHOI DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD GYDA'R RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU AR GYFER AELODAU

1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar y cynnydd o ran y cyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau Etholedig ers yr adroddiad a gyflwynwyd ar 11fed o Fawrth 2020.

Mae'r pandemig presennol yn amlwg wedi cael effaith ar yr hyfforddiant a ddarparwyd.

2. Y CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau sydd ynghlwm (atodiad 1) yw'r cynllun ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019/2020, gyda rhai digwyddiadau eto i'w trefnu. Er mwyn amlygu'r digwyddiadau oedd wedi ei cwblhau, ma'r awdur wedi gosod statws RAG er mwyn ei gwneud yn haws i adnabod y rhai efallai fydd angen ei cario drosodd i'r cynllun 2020/22.

Ychydig iawn o weithgaredd a fu o ran hyfforddiant a gynigiwyd i Aelodau Etholedig yn ystod chwarter olaf 2019/2020, oherwydd y pandemig.

Y bwriad yw i sefydlu a chasglu anghenion hyfforddi er mwyn llunio Cynllun Datblygu diwygiedig o'r cyfnod presennol i fyny i gyfnod etholiadau yn 2022 a'i chyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo.

3. ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (ADP) I AELODAU

'Roedd trefniadau mewn perthynas â chwblhau'r ADP ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i fod i gael eu cwblhau erbyn canol mis Mawrth, 2020 gyda'r

gweithgaredd hwn yn cael ei gydlynu gan y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd.

Mae anngheinion datblygu wedi ei cynnwys yn y cynllun drafft ac yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar sgiliau cadeirio a defnydd o TG. Bydd y cynllun yn cael ei ddiweddarau ymhellach yn dilyn ADP blynyddol yn chwarter pedwar.

4. DARPARU HYFFORDDIANT

Ar nodyn cyffredinol, oherwydd gofynion pellter cymdeithasol, nid yw'r dulliau traddodiadol o gyflwyno hyfforddiant wedi bod yn opsiwn dros yr ychydig fisoedd diwethaf, a gohiriwyd yr holl gyrsiau hyfforddi a oedd wedi'u trefnu a'u harchebu. Bydd adolygiadau rheolaidd o'r trefniadau yn cael ei gwneud.

Cysylltwyd â nifer o ddarparwyr hyfforddiant i sefydlu a allant gynnig dulliau amgen o ddarparu hyfforddiant trwy lwyfannau megis MS Teams / Zoom e.e. gweminarau. Gall hwn fod yn opsiwn i'w ystyried ar gyfer darparu hyfforddiant i Aelodau Etholedig yn y dyfodol. Mae'r opsiynau o fewn y gweminarau hyn yn caniatáu hyblygrwydd i fynychwyr gyfrannu / gwneud gwaith grŵp ac ati. Gallai'r opsiwn hwn hefyd leihau costau hyfforddi.

Yn ystod y cyfnod clo, mae rhywfaint o hyfforddiant / arweiniad ar ddefnyddio MS Teams wedi bod ar gael gan Swyddogion TGCh ar gyfer Aelodau Etholedig er mwyn hwyluso gallu'r Aelodau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd. Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio hefyd wedi mynychu gweminarau gyda CIPFA.

Mae modiwlau E-Ddysgu, y gellir eu cyrchu trwy blatfform Cronfa Ddysgu'r Awdurdod, yn parhau i fod ar gael, gyda mwy o wybodaeth yn cael ei hychwanegu bob wythnos. Mae'r Tim Dysgu a Datblygu yn ystyried datblygu adran ar blatfform E-Ddysgu'r Awdurdod er mwyn sicrhau mynediad hawdd i gyfathrebiadau ynglyn â digwyddiadau hyfforddiant/gwybodaeth iechyd a lles.

Yn ôl yr arfer, mae cefnogaeth ar gyfer sgiliau TG ar gael fesul 1-1/sail grwp, pe byddai angen hyn.

5. CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

Cynhaliwyd trafodaethau gyda Swyddog Polisi a Gwella CLILC i sefydlu pa adnoddau a allai fod ar gael yn ystod y cyfnod hwn. Y gobaith yw y bydd arweiniad a gwybodaeth mewn perthynas â darparu hyfforddiant yn y dyfodol yn cael eu rhannu ar draws yr holl Awdurdodau.

Mae'r gwaith ar y modiwlau E-Ddysgu ar gyfer Aelodau Etholedig yn parhau.

6. ARGYMHELLION

- Gofynir am farn y Pwyllgor ar y cynllun drafft i fyny i'r cyfnod etholiadau lleol yn 2022
- Bod yr holl anghenion hyfforddi sy'n deillio o'r Adolygiadau Datblygiad Personol yn cael eu hanfon ymlaen at y Rheolwr Hyfforddiant AD erbyn 28 Chwefror 2021 er mwyn gallu diwygio'r cynllun a blaenoriaethu hyfforddiant
- cyflwyno Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2020/2022 i'w gymeradwyo i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn 2021.

**MIRIAM WILLIAMS
RHEOLWR HYFFORDDI ADNODDAU DYNOL
RHAGFYR 2020**

RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG			
(Lle'n bosib, cynhelir sesiynau hyfforddiant ar ddydd lau/Gwener gan osgoi'r p'nawn lau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau. Lle'n bosib, nodir dyddiadau/amseroedd)			
Gweithgaredd	Cynulleidfa	Dull	Pryd
Rheoli'r Trysorlys	Pob Aelod Etholedig	Richard Bason	Tachwedd 2019
Materion Diogelu 'Mop up'	Pob Aelod Etholedig (M)	Annwen M Hughes, Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ymarferydd Sicrhau Ansawdd)	14eg Tachwedd 2019
Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)	Pob Aelod Etholedig	Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth Oedolion	Cyflwyniad gan Dafydd Bulman a Rachel Williams. Dyddiad: i'w benderfynu
Penderfynu er Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)	Pob Aelod Etholedig	Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig.	Dyddiad: i'w benderfynu
"Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)".	Pob Aelod Etholedig (M)	Gweithdy ac E-Ddysgu	25ain Chwefror 2019 16eg Hydref 2019 ('mop up')
Cyflwyniad i Gydraddoldeb	Pob Aelod Etholedig (M)	E-Ddysgu/Gweithdy	28ain Mawrth 2019 'Mop up' 2019/2020
Arwain Cymuned a Thrin a Thrafod Achosion	Pob Aelod Etholedig	E-ddysgu	Parhaus
Dull cenedlaethol o ymdrin ag eiriolaeth statudol – hyfforddiant gweithredu am ddim	Pob Aelod Etholedig	Natalie Brimble TrosGynnal Plant North Wales Advocacy	5ed Mawrth 2020
CLILC – Rhaglen Arweinyddiaeth	Aelodau Etholedig Enwebedig	Gweithdai Rhanbarthol	Medi – Tachwedd 2019
Trwyddedu - Diweddariad	Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu	Swyddogion Mewnol	Dyddiad: Tachwedd 2019
Diogelwch Personol a chamdriniaeth ar-lein	Pob Aelod Etholedig	Catrin Love	Dyddiad: i'w benderfynu
Cynllunio <ul style="list-style-type: none"> Materion Llifogydd Rôl Aelodau lleol yn y drefn cynllunio 	Pob Aelod Etholedig	Swyddogion Mewnol	16eg Hydref 2019
Delio â Materion Heriol	Pob Aelod Etholedig	David Jones - ACAS	26ain Medi 2019

Gweithredu'r Cyfansoddiad	Pob Aelod Etholedig		Dyddiad: I'w benderfynu
Arweinyddiaeth Gymunedol a Nodi Grantiau	Pob Aelod Etholedig		Dyddiad: I'w benderfynu
Cadeirio Cyfarfodydd	Pob Aelod Etholedig	Ar gael ar y porth Learning@Wales	Parhaus
Camdriniaeth yn y Cartref	Pob Aelod Etholedig		Dyddiad: I'w benderfynu Mawrth / Ebrill 2020

SGILLIAU TGCH

Defnyddio iPads	Pob Aelod Etholedig	Mewnol	Parhaus
Sgiliau Cyffredinol TG	Pob Aelod Etholedig – Fel angen	Mewnol	Parhaus

MODIWLAU E-DDYSGU

Mae gan y Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at y system E-ddysgu. Gweler isod fanylion am y meysydd pwnc cyfredol sydd ar gael. Bydd modiwlau ychwanegol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno maes o law. Gellir bellach weld y cyrsiau a nodir gyda (i) isod drwy iPad.

Datblygiad Aelodau	Yr Iaith Gymraeg	Iechyd a Diogelwch
<ul style="list-style-type: none"> - Moesau a Safonau (i) - Y Cynghorydd Ward Effeithiol (i) - Sgiliau Siarad Cyhoeddus (i) - Cadeirio Cyfarfodydd (i) - Rhiantu Corfforaethol (i) - Penderfyniadau I Genedlaethau'r Dyfodol (i) - Cyflwyniad I Graffu (i) 	<ul style="list-style-type: none"> - Croeso Cymraeg Gwaith (i) - Croeso'n ôl! Cymraeg Gwaith (i) 	<ul style="list-style-type: none"> - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel (i) - Rheoli Iechyd a Diogelwch (i) - Glendid Bwyd (i)
Llesiant	Gofal Cwsmer a Sgiliau Proffesiynol	Technoleg Gwybodaeth
<ul style="list-style-type: none"> - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (M) - Cyflwyniad I Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (i) - Gwybodaeth Iechyd (i) - Ymwybyddiaeth Straen (i) - Cadernid Personol (i) - Atal (i) (M) - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (i) - Cynllunio Cyn Ymddeol (i) - Diogelu – Ymwybyddiaeth Sylfaenol (i) - Caethwasiaeth Fodern (i) (M) 	<ul style="list-style-type: none"> - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) (i) (M) - Ysgrifennu Effeithiol (i) - Rheoli Eich Hun a'ch Amser (i) - Ysgrifennu Cofnodion Effeithiol (i) - Rhoi a Derbyn Adborth (i) - Sgiliau Cyfarfod (i) - Sgiliau Cyflwyno (i) - Deallusrwydd Emosiynol (i) - Hunan Ddatblygiad (i) - Llywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol (i) 	<ul style="list-style-type: none"> - Ymwybyddiaeth Seibr (M)

(M) = Mandadol

Fel dilyniant i gyfarfodydd Cynlluniau Datblygu Personol un i un gael ei cynnal, bydd anghenion pellach yn cael ei adnabod a'i cynnwys (os yn briodol) o fewn y cynllun yma.

MEYSYDD DATBLYGU I'W YSTYRIED 2020/2022

1. BLAENORIAETHAU CYFFREDINOL SYDD WEDI EI ADNABOD GAN CLILC :

- Gwaith Cymunedol *
- Gwneud penderfyniadau hanfodol
- Diweddaru Aelodau ar gynlluniau/gweithredoedd y Cyngor fel ei bod yn gallu hysbysu a mesur anghenion y gymuned;
- Penderfyniadau ynglyn a materion COVID;
- Pwysau ariannol a gosod cyllidebau yng ngolau llymder;
- Brexit;
- Cadeirio a chymeryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol;
- Defnydd TG
- Ailymweld a Sgriwtini mewn argyfwng ‘
- Gwydnwch personol
- Cyfleoedd ar gyfer Aelodau o'r Cabinet

Awgrymiadau ar gyfer y 18 mis nesaf:

Ffocws ar barhau gyda sesiynau briffio yn hytrach na hyfforddiant grwpiau gyda mynediad i wybodaeth/unigolion perthnasol gydag esiamplau o ymarferion da fydd yn eich galluogi i allu bod yn arloesol ac ymateb yn sydyn i sefyllfaoedd newidiol.- yn benodol o amgylch Cynllunio/Tai/Gofal Cymdeithasol ac Addysg.

2. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

- **Ystyried:** Marchnata positif/addas gan fod y rhain wedi eu plethu i bob agwedd o waith Aelod gan gynnwys Diogelu Data, Diogelu, Disgyblaeth y Côt Ymddygiad, Cyfrinachedd Masnachol ac yn y blaen. Mae'n debyg fod aelodau'r cyhoedd yn cyfathrebu gyda'r Aelodau Etholedig ar y cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd ac mae angen i Aelodau Etholedig fod yn gyfarwydd â'u goblygiadau drwy ddefnyddio Facebook, Twitter ac yn y blaen.

** Sesiwn blaenorol wedi ei gynnal 2018, gyda 11 wedi mynychu – erbyn hyn a'r sefyllfa sydd ohonni, efallai ein bod yn gneud mwy o ddefnydd o'r maes yma ac angen mwy o gefnogaeth?

3. CYLLID

- Rheoli'r Trysorlys – Diweddariad Blynnyddol
- Twyll
- Rheoli Risg
- Materion Archwilio – pecyn EDdysgu

4. SGRIWTINI

- Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd Rhithiol o'r Pwyllgorau Sgriwtini – Protocolau
- Defnydd Effeithiol o Sgriwtini

5. MATERION CYNLLUNIO:

- Ymwybyddiaeth Cynllun Datblygu Lleol a'r adroddiad Monitro a.y.y.b
- Mae swydd wag ar y pwyllgor cynllunio a bydd angen hyfforddiant penodol i'r Aelod newydd ar faterion cynllunio.
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth ar ganfyddiadau'r AMB

6. LLESIAANT AELODAU A GWEITHIO O BELL:

- Defnydd o adnoddau sydd ar gael ar platform Cronfa Dysgu CSYM

7. SGILIAU DIGIDOL

- Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Seibr

CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	15 Rhagfyr 2020
TEITL YR ADRODDIAD:	Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cyngorwyr Sir a (b) Cyngorwyr Tref a Chymuned.
ADRODDIAD GAN:	Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol mwycs@ynysmon.gov.uk
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586

1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cyngorwyr Sir a (b) Cyngorwyr Tref / Chymuned.

2. DIWEDDARIAD

2.1 Cyflwynwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2019) a Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2019) yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 11 Mawrth 2020.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4, ynghylch Cyngorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4, ynghylch Cyngorwyr Tref a Chymuned, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.3 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1, ynghylch Cyngorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1, ynghylch Cyngorwyr Tref a Chymuned, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

2.4 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 5**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 6**.

2.5 O ganlyniad i'r Pandemig Coronafeirws, ac er mwyn ymateb i'r argyfwng, cafodd busnes fel arfer ei roi i'r neilltu. Anfonwyd adroddiadau Chwarter 4 (2019/2020) a Chwarter 1 (2020/2021) at aelodau'r Pwyllgor Safonau ar 6 Gorffennaf 2020. Anfonwyd adroddiadau Chwarter 2 (2020/2021) ar 5 Hydref 2020.

2.6 Bydd yr adroddiadau ar gyfer Chwarteri 4, 1 a 2 (**Atodiadau 1-6**) yn cael eu dosbarthu i'r Cynghorau Tref a Chymuned ac i aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor hwn yn dilyn y cyfarfod yma o'r Pwyllgor Safonau.

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1-6** ac yn ystyried unrhyw dueddiadau a amlygir (os o gwbl) ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cywiro pethau.

3.2 I'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddosbarthu yr **Atodiadau 1-6** efo'r Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor.

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH
CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2020) – 2019/2020 – Quarter 4 (January – March 2020)

Enw'r Cynghorydd Name of Councillor	Enw'r Achwynydd Name of Complainant	Cyfeirnod y Ffeil File Reference (i) Un ni/Ours (ii) "O"	Dyddiad y Gŵyn - "O" Complaint date - "O"	Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol Result of "O" Investigation and date or the current situation
DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT				

Tudalen 33

**CWYNIION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON - "O" - AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH
CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN - "O" - REGARDING
TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS - UPDATE**

Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2020) – 2019/2020 – Quarter 4 (January – March 2020)

Enw'r Cynghorydd Name of Councillor	Enw'r Achwynydd Name of Complainant	Cyfeirnod y Ffeil File Reference (i) Un ni/Ours (ii) "O"	Dyddiad y Gŵyn - "O" Complaint date - "O"	Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol Result of "O" Investigation and date or the current situation
DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT				

Tudalen 34

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – “O” – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH
CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – “O” -REGARDING
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2020) – 2020/2021 – Quarter 1 (April - June 2020)

Enw'r Cynghorydd Name of Councillor	Enw'r Achwynydd Name of Complainant	Cyfeirnod y Ffeil File Reference (i) Un ni/Ours (ii) “O”	Dyddiad y Gŵyn - “O” Complaint date - “O”	Canlyniad Ymholiad “O” a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol Result of “O” Investigation and date or the current situation
DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT				

Tudalen 35

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON - "O" - AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH
CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN - "O" - REGARDING
TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS - UPDATE**

Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2020) – 2020/2021 – Quarter 1 (April - June 2020)

Enw'r Cynghorydd Name of Councillor	Enw'r Achwynydd Name of Complainant	Cyfeirnod y Ffeil File Reference (i) Un ni/Ours (ii) "O"	Dyddiad y Gŵyn - "O" Complaint date - "O"	Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol Result of "O" Investigation and date or the current situation
DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT				

Tudalen 36

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – “O” – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH
CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – “O” -REGARDING
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2020) – 2020/2021 – Quarter 2 (July – September 2020)

Enw'r Cynghorydd Name of Councillor	Enw'r Achwynydd Name of Complainant	Cyfeirnod y Ffeil File Reference (i) Un ni/Ours (ii) “O”	Dyddiad y Gŵyn - “O” Complaint date - “O”	Canlyniad Ymholiad “O” a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol Result of “O” Investigation and date or the current situation
DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT				

Tudalen 37

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON - "O" - AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH
CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN - "O" - REGARDING
TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS - UPDATE**

Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2020) – 2020/2021 – Quarter 2 (July – September 2020)

Enw'r Cynghorydd Name of Councillor	Enw'r Achwynydd Name of Complainant	Cyfeirnod y Ffeil File Reference (i) Un ni/Ours (ii) "O"	Dyddiad y Gŵyn - "O" Complaint date - "O"	Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol Result of "O" Investigation and date or the current situation
DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT				

Tudalen 38

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	15 Rhagfyr 2020
TEITL YR ADRODDIAD:	Penderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfr ar gyfer Hydref – Rhafyr 2019 (Rhifyn 23)
ADRODDIAD GAN:	Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol mwyics@ynysmon.gov.uk
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@anglesey.gov.uk 01248 752586

1. CYFLWYNIAD

Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi [Coflyfr o Gwynion Côt Ymddygiad](#) unwaith bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfr ar gyfer Hydref-Rhagfyr 2019 ([Rhifyn 23](#)).[**ATODIAD 1**].

Bydd materion yn cael eu hadrodd yn chwarterol fel arfer ond nid oes adroddiad wedi ei chyhoeddi yn ystod 2020.

2. CEFNDIR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd arno i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu côd ymddygiad. Mae awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gwyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bod yn fodlon:-

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r côd ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

- (a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod côd ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;
- (b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;
- (c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau;
- (d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy driw'nlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu driw'nlys achos ar ran y Panel, yw cynnal gwrandawriad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a gafodd y côd ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb. Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan Bwyllgorau Safonau ddim pwerau anghymhwys, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb. Mae gan driw'nlys achos awdurdod i wahardd am hyd at 12 mis ac anghymhwys hyd at 5 mlynedd.

3. ARGYMHELLIAD

I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1**.

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau
<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - Rhif Achos: 201805269</p>	<p>Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi torri'r Côt Ymddygiad trwy bleidleisio ar osod cyfradd y dreth gyngor mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2018 pan oedd ganddo ddyledion treth gyngor am gyn- gartref.</p> <p>Mae'n drosedd o dan adran 106 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i aelod bleidleisio ar bennu cyfradd y dreth gyngor os oes ganddynt ddyledion treth gyngor eu hunain.</p> <p>Cafodd yr Ombwdsmon dystiolaeth ddogfennol berthnasol, gan gynnwys copïau o gofnodion treth gyngor ar gyfer yr eiddo dan sylw. Edrychodd hefyd ar y gweddarllediad ar gyfer cyfarfod y Cyngor llawn a chynhaliodd gyfweiliad â Swyddog Monitro'r Cyngor a'r Aelod.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Paragraff 6(1)(a) sy'n ymwneud â dwyn anfri ar yr awdurdod; • Paragraff 10(1) mewn perthynas â'r gofyn i ystyried a oes diddordeb personol i'w ddatgelu; • Paragraff 11(1) mewn perthynas â datgelu diddordebau personol mewn cyfarfodydd; • Paragraff 14(1)(a) mewn perthynas â'r gofyn i beidio â chymryd rhan mewn cyfarfod pan gyfyd y busnes y mae gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn ei gylch; • Paragraff 14(1)(b) mewn perthynas â'r gofyn i beidio ag arfer swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â mater y mae gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn ei gylch; • Paragraff 14(1)(c) mewn perthynas â'r gofyn i beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad y mae gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn ei gylch. 	<p>Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi torri'r Côt gan ei fod yn derbyn nad oedd wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu a'i fod wedi pleidleisio ar bennu cyfradd y dreth gyngor. Derbyniodd yr Aelod hefyd fod ganddo ddyledion treth gyngor mewn perthynas â chyn eiddo ar adeg y cyfarfod hwnnw.</p> <p>Fodd bynnag, penderfynodd yr Ombwdsmon <u>na fyddai er budd y cyhoedd i fynd ar ôl y mater o ystyried yr amgylchiadau lliniarol sylweddol yn yr achos penodol hwn</u>. Roedd y rhain yn cynnwys yr amgylchiadau personol a arweiniodd at i'r Aelod fynd i'r ddyled yn y lle cyntaf a'r ffaith bod yr aelod yn ddibrofiad. Roedd wedi ymddiheuro, wedi talu'r ddyled a dweud na fyddai'n digwydd eto.</p> <p>Yn wyneb yr amgylchiadau lliniarol, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.</p>	<p><u>Ni ddylai aelodau ddibynnu ar yr achos hwn</u> fel ffordd o amddiffyn pleidleisio ar y Gyllideb pan fo ganddynt ddyledion treth gyngor.</p> <p>Dim ond gwybodaeth gyfyngedig a ddarperir yn y crynodeb o'r achos. Fodd bynnag, mae'n dangos bod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod y trothwy ar gyfer yr elfen "budd y cyhoedd" (yr ail gam) yn uchel.</p>

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau
<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - Rhif Achos: 201807334</p>	<p>Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod wedi torri'r Côt Ymddygiad; honnwyd, yn groes i gyngor y Swyddog Monitro bod gwrthdaro diddordeb, fod Aelod wedi derbyn swydd gabinet benodol. Honnwyd hefyd bod yr Aelod wedi methu â datgan diddordeb mewn materion o'r fath.</p> <p>Yn ystod yr ymchwiliad, gofynnwyd am wybodaeth ynghylch y cyngor a roddwyd gan y Swyddog Monitro, a chyfwelwyd yr Aelod. Esboniodd yr Aelod ei fod wedi ystyried cyngor y Swyddog Monitro a'i fod yn hyderus bod strategaeth briodol wedi'i llunio i reoli a lliniaru unrhyw wrthdaro diddordebau posib. Dywedodd yr Aelod ei fod ef ac Arweinydd y Cyngor wedi cynnal ymchwil i nodi lle'r oedd senarios tebyg wedi digwydd mewn cynghorau eraill a'r effaith a gafodd ar yr awdurdodau hynny. Cynhyrchodd yr Aelod dystiolaeth hefyd o ddatganiadau o ddiddordeb yr oedd wedi eu gwneud.</p>	<p>Datgelu a chofrestru diddordebau o dan baragraffau 10 -12</p>	<p>Er bod yr Ombwdsmon yn fodlon bod yr Aelod wedi ystyried cyngor y Swyddog Monitro, roedd y diffyg tryloywder mewn perthynas ag agweddau ar y penodiad (gan gynnwys amseriad ymddiswyddiad yr Aelod o gyflogaeth a fyddai wedi gwrthdaro â'r penodiad) yn peri pryder ac yn achosi eraill i gwestiynu'r penodiad, a hynny'n rhesymol.</p> <p>Gan fod yr Aelod wedi ymddiswyddo o'i gyflogaeth flaenorol yn y pen draw ac ymgymryd â'i rôl, canfu'r Ombwdsmon nad oedd er budd y cyhoedd i fynd ar ôl y mater ymhellach a chanfu nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. O ystyried y potensial i wrthdaro diddordeb godi, atgoffwyd yr Aelod o'r angen i ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro ar faterion i'r dyfodol.</p>	<p><u>Ni ddylai aelodau ddibynnu ar yr achos hwn</u> fel ffordd o amddiffyn sefyllfaoedd posib o wrthdaro diddordeb rhwng cyflogaeth a'u rôl fel Cyngorydd.</p> <p>Dim ond gwybodaeth gyfyngedig a ddarperir yn y crynodeb o'r achos. Fodd bynnag, mae'n dangos bod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod y trothwy ar gyfer yr elfen "budd y cyhoedd" (yr ail gam) yn uchel.</p> <p>Atgoffir aelodau i gysylltu â'r Swyddog Monitro i gael cyngor lle maent yn ansicr o faterion Côt Ymddygiad gan gynnwys, fel yn yr achos hwn, ar faterion datgan diddordebau personol / diddordebau sy'n rhagfarnu.</p>

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	15 Rhagfyr 2020
TEITL YR ADRODDIAD:	Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru hyd yma (cyfnod cyhoeddi Mawrth 2020 – Rhagfyr 2020)
ADRODDIAD GAN:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achosion, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac
2. I ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2020. Bwriedir iddo fod yn grynodedb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan y PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar [Wefan y PDC](#)

2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1**.

2.1 Penderfyniadau a wnaed

Dim

2.2 Apeliadau a benderfynwyd

[APW/002/2019-020/AT: Cynghorydd Neil McEvoy - 22 Mehefin 2020](#)

3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodeb(au) achosion

Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achosion – Mawrth 2020: Rhagfyr 2020

Enw	Crynodeb o'r ffeithiau	Crynodeb o'r penderfyniad	Canfyddiadau
<p>Y Cynghorydd Neil McEvoy</p> <p>Cyngor Sir Caerdydd</p> <p>APW / 002 / 2019-020 / AT</p> <p>[Mae hefyd yn Aelod o Senedd Cymru dros Ganol De Cymru, etholaeth sy'n cynnwys yr ardal y mae'n ei chynrychioli fel Cynghorydd.]</p>	<p>Y gŵyn a gafodd sylw gan OGCC:</p> <p>Trwy lythyr dyddiedig 7 Mehefin 2019, derbyniodd Swyddog Monitro Cyngor Caerdydd atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ("OGCC" neu'r "Ombwdsmon") mewn perthynas â honiadau o gamymddwyn a wnaed yn erbyn y Cynghorydd McEvoy.</p> <p>'Roedd yr atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliad a gynhaliwyd mewn perthynas â chwyn a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon gan gyfarwyddwr cartref gofal preifat a gontractiwyd i ddarparu gwasanaethau i'r Cyngor. Roedd y gŵyn yn honni bod ymddygiad y Cynghorydd McEvoy ar 29 Ebrill 2018, ac ar 11 Mai 2018, tuag at dri o weithwyr y cartref gofal preifat a'i ran yn achos plentyn yn ngofal y cartref (y cyfeirir ato fel Plentyn X) wedi bod yn amhriodol, yn fygythiol ac yn fwlio, gan dorri Côt Ymddygiad yr Aelodau.</p> <p>Ar ôl ystyried y gŵyn, penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio i ganfod a oedd y Cynghorydd McEvoy wedi methu â chydymffurfio â'r</p>	<p>Rhoddodd Tribiwnlys Apêl sylw i apêl gan y Cyng Neil McEvoy yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Caerdydd ar 14 Ionawr 2020 ei fod wedi torri Côt Ymddygiad Cyngor Sir Caerdydd ac y dylid ei atal fel Cynghorydd am bedwar mis. Dim ond y gosb a osodwyd a ystyriodd y Tribiwnlys Apêl, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Pwyllgor Safonau ynghylch ffeithiau a thorri'r côd yn unig.</p> <p>Wrth ddod i'w benderfyniad mewn perthynas â'r gosb, roedd gan Dribiwnlys Apêl PDC ddau ddewis:</p> <p>(a) Cadarnhau unrhyw gosb a roddwyd, neu</p> <p>(b) Cyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Safonau gan argymhell y dylid rhoi cosb wahanol.</p> <p>Daeth y Tribiwnlys Apêl i benderfyniad trwy sylwadau ysgrifenedig ar 22 Mehefin 2020 mewn cyfarfod a gynhaliwyd o bell.</p> <p>Esboniodd y Tribiwnlys nad yw'n rhoi fawr o bwys ar benderfyniadau a wneir gan baneli neu Bwyllgorau eraill ar wahanol ffeithiau mewn perthynas â gwahanol bobl, gan ffafrio yn hytrach ddilyn y 'Canllawiau Cosbau' ynghyd â deunydd sy'n uniongyrchol berthnasol a dod i ddyfarniad ar y cyd. Mae'r dull hwn yn cyd-</p>	<p>Pwyntiau dysgu ar gyfer aelodau etholedig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cydnabod camgymeriad a dangos edifeirwch a mewnwelediad o blaid Cynghorydd pan fydd Panel Dyfarnu Cymru'n ystyried cosb. • Bydd mynychu hyfforddiant ar faterion Ymddygiad yn cynorthwyo aelodau i wella eu dealltwriaeth ac yn ffactor lliniarol gerbron PDC. Os nad ydynt eisioes wedi ei gwblhau, cynghorir aelodau i gwblhau'r hyfforddiant ar-lein sydd ar gael ar y **linc yma**. <p>Pwyntiau dysgu i'r Pwyllgor Safonau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Er nad yw'n ofynnol, mae'n arfer da i ddilyn Canllawiau Cosbau PDC wrth ystyried cosb ac i'r cofnod penderfyniad gadarnhau'r gosb.

Enw	Crynodeb o'r ffeithiau	Crynodeb o'r penderfyniad	Canfyddiadau
	<p>darpariaethau hynny yn y Côd Ymddygiad sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill; - Peidio â defnyddio ymddygiad bwlio nac aflonyddu ar unrhyw berson; a - Peidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod. <p>Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod tystiolaeth i awgrymu y gallai ymddygiad y Cynghorydd McEvoy fod wedi torri Côt Ymddygiad yr Aelodau.</p> <p>Y digwyddiadau sy'n destun y gŵyn:</p> <p><u>Digwyddiad 1</u> - Ar 29 Ebrill 2018 gwnaed galwad ffôn gan y Cynghorydd McEvoy i gartref preswyl ar gyfer gofal plant ac atebwyd yr alwad ffôn gan "Tyst 2". Cyflwynodd y Cynghorydd McEvoy ei hun fel Aelod Cynulliad a Rhiant Corfforaethol a dywedodd ei fod eisiau ymweld â phreswlydd, Plentyn X, yn y cartref gofal y diwrnod hwnnw. Dywedodd Tyst 2 na allai'r Cynghorydd McEvoy ymweld â Phlentyn X oherwydd nad</p>	<p>fynd ag arfer gorau mewn meysydd eraill o'r gyfraith lle mae canllawiau neu arweiniad ar gosbau wedi cymryd blaenoriaeth dros ddyfynnu penderfyniadau blaenorol i raddau helaeth. Mae'n well gan y Tribiwnlys asesu ffeithiau'r achos yn erbyn y 'Canllawiau Cosbau' a dod i farn ynghylch unrhyw ystod sydd ar gael; ac fel y bo'n briodol, sefyllfa'r Apelydd o fewn yr ystod berthnasol.</p> <p>Dilynodd y tribiwnlys Canllawiau Cosb PDC.</p> <p>Mae hwn yn manylu ar y broses bum cam a ddilynir gan dribiwnlysoedd achos ac apêl wrth bennu cosb:</p> <ul style="list-style-type: none"> - asesu difrifoldeb y toriad ac unrhyw ganlyniadau i unigolion a / neu'r cyngor (para.34 - 38) - nodi'r math eang o gosb y mae'r Tribiwnlys yn ei hystyried sydd fwyaf tebygol o fod yn briodol o ystyried y toriad; (para.39) - ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol neu waethgol perthnasol a sut y gallai'r rhain effeithio ar lefel y gosb sy'n cael ei hystyried; (para.40 i 42) - ystyried unrhyw addasiad pellach sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gosb yn cael effaith briodol o ran cyflawni dibenion y cosbau; (para.43) - cadarnhau'r penderfyniad ynghylch y gosb a chynnwys, o fewn y penderfyniad 	

Enw	Crynodeb o'r ffeithiau	Crynodeb o'r penderfyniad	Canfyddiadau
	<p>oedd wedi ei enwi ar gynllun gofal y plentyn, a chynghorodd y Cynghorydd McEvoy i drefnu ymweliad trwy weithiwr cymdeithasol. Dywedodd y Cynghorydd McEvoy y byddai'n mynychu'r diwrnod hwnnw ac y byddai'n dod â chydweithiwr gydag ef. Dywedodd Tyst 2 nad oedd y Cynghorydd McEvoy wedi'i awdurdodi i ymweld â Phlentyn X. Ymatebodd y Cynghorydd McEvoy y byddai'n codi'r mater yng Nghynulliad Cymru. Dywedodd Tyst 2, pe bai'r Cynghorydd McEvoy yn mynychu'r cartref gofal heb awdurdod, byddai'n rhaid iddi ffonio'r heddlu, oherwydd ei dyletswydd i ddiogelu trigolion y cartref. Gofynnodd y Cynghorydd McEvoy i Dyst 2 siarad gyda'i Chyfarwyddwr a dod yn ôl ato o fewn cyfnod penodol ar y diwrnod hwnnw. Galwodd Tyst 2 y Cynghorydd McEvoy yn ôl ac ailadrodd ei chynghor blaenorol. Ni fynychodd y Cynghorydd McEvoy yn y cartref gofal y diwrnod hwnnw.</p> <p><u>Digwyddiad 2 -</u> Ar 11 Mai 2018, mynychodd y Cynghorydd McEvoy brif swyddfa'r cartref gofal gyda thad Plentyn X gyda'r nod o fynychu cyfarfod therapi wedi'i drefnu ar gyfer X. Gwahoddwyd y Cynghorydd McEvoy</p>	<p>ysgrifenedig, esboniad o resymau'r tribiwnlys dros benderfynu ar y gosb a ddewiswyd fel y gall y partion a'r cyhoedd ddeall ei gasgliadau. (para.53)</p> <p>Ni all tribiwnlysoedd apêl ond argymell atal aelod (yn rhannol neu'n llawn) am hyd at 6 mis ac ni all argymell angymhwysu oherwydd y cyfyngiadau ar ei bwerau.</p> <p>Cadarnhaodd y Tribiwnlys y penderfyniad a wnaed yn y lle cyntaf ynghylch y gosb yn unfrydol. Ystyriwyd bod hwn yn achos difrifol a oedd yn haeddu cosb ar ben uchaf yr ystod briodol a nodwyd. Felly canfu'r Tribiwnlys Apêl fod atal y Cynghorydd McEvoy am 4 mis yn gymesur ac yn briodol a bod modd cyfiawnhau'r penderfyniad o ystyried yr holl amgylchiadau ac o gofio canfyddiadau'r Pwyllgor Safonau ynghylch y ffeithiau a'r toriad yn unig.</p>	

Enw	Crynodeb o'r ffeithiau	Crynodeb o'r penderfyniad	Canfyddiadau
	<p>i fynychu'r cyfarfod therapi gan y Tad, ond ni dderbyniodd y Cynghorydd gadarnhad ei hun gan y Cyngor yn cytuno iddo gael bod yn bresennol yn y cyfarfod. Cyfarfu "Tyst 4" gyda'r Cynghorydd McEvoy a'r tad yn fuan ar ôl iddynt fynd i mewn i'r adeilad. Cafodd y Cynghorydd McEvoy a'r tad ddau rhyngweithiad â Thyst 4. Yn dilyn hynny, cafodd y Cynghorydd McEvoy a'r tad rhyngweithiad â "Tyst 3". Trosglwyddodd tyst 3 neges i'r tad a'r Cynghorydd McEvoy yn dweud wrthynt fod y cyfarfod therapi wedi'i ganslo gan weithiwr cymdeithasol (y cyfeirir ato fel "y gweithiwr cymdeithasol").</p> <p>Recordiwyd rhan o'r rhyngweithiad â Thyst 3 yn gudd gan y tad o dan gyfarwyddiadau'r Cynghorydd McEvoy. Yn ystod y rhyngweithiad hwn a gafodd ei recordio, roedd y Cynghorydd McEvoy ar y ffôn i gyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd McEvoy wrth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ei fod yn dymuno gwneud cwyn am Dyst 3 a rhoddodd ddisgrifiad ohono, a oedd yn cynnwys y term 'ychydig dros bwysau'. Gadawodd y Cynghorydd McEvoy yr adeilad gyda'r tad.</p>		

Enw	Crynodeb o'r ffeithiau	Crynodeb o'r penderfyniad	Canfyddiadau
	<p>Cefndir yr achosd hyd at yr Apêl: Cynullwyd Panel Gwrandawiadau (Is-bwyllgor y Pwyllgor Safonau a Moeseg) rhwng 6 ac 14 Ionawr 2020 yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd i ystyried yr honiadau mewn perthynas â'r Cynghorydd McEvoy.</p> <p>Ar 14 Ionawr, yn sgil ei ganfyddiadau o'r ffeithiau , penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>a. O ran y digwyddiad ar 29 Ebrill 2018, bod y Cynghorydd McEvoy wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth i Dyst 2 [torri paragraff 4 (b) o'r Côd]; roedd wedi defnyddio ymddygiad bwlio ac aflonyddu tuag at Dyst 2 [torri paragraff 4(c) o'r Côd] ac wedi dwyn anfri ar Gyngor Caerdydd [torri paragraff 6(1)(a) o'r Côd.], ac</p> <p>b. O ran y digwyddiad ar 11 Mai 2018, fod y Cynghorydd McEvoy wedi dwyn anfri ar Gyngor Caerdydd ac felly wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Côd Ymddygiad.</p> <p>.</p> <p>Yna penderfynodd y Pwyllgor ymhellach, o ystyried nifer yr amgylchiadau gwaethybol, yn ogystal â'r rhai lliniarol, y byddai'r Cynghorydd McEvoy yn cael ei atal fel Cynghorydd am bedwar mis.</p>		

Enw	Crynodeb o'r ffeithiau	Crynodeb o'r penderfyniad	Canfyddiadau
	<p>Caniatau'r Apêl: Yn ei phenderfyniad dyddiedig 5 mis Mawrth 2020, rhoddodd Llywydd PDC ganiatâd i apelio yn y termau canlynol: <i>"While the Appellant framed his objection to the sanction imposed primarily in terms that it was disproportionate due to discrimination, he did also comment that it was harsh in light of the findings made by the standards Committee. I cannot say in all the circumstances that there is no reasonable prospect of success for this ground of appeal, given an Appeal Tribunal considering the findings made by the standards Committee on both facts and breach of the Code may conclude that the sanction is disproportionate. I also note that there is no evidence as to whether the standards Committee took into account any sanctions guidance when reaching its decision, though it appears to have considered relevant factors and the use of such guidance is not mandatory. I make the decision to allow an appeal on this point, notwithstanding the fact that the Appellant refused to make any submission to the standards Committee on the issue of sanction. I remind the parties that if the</i></p>		

Enw	Crynodeb o'r ffeithiau	Crynodeb o'r penderfyniad	Canfyddiadau
	<p><i>Appeal Tribunal chooses to recommend that the sanction be reconsidered by the standards Committee, the tribunal has the ability to recommend a reduction or increase in the period of suspension. It therefore will be considered by an Appeal Tribunal in due course, but its consideration will be based on the findings of the standards Committee about facts and breach alone."</i></p>		

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	15 Rhagfyr 2020
TEITL YR ADRODDIAD:	Panel Dyfarnu Cymru – Canllawiau Arlywyddol
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Hysbysu'r Pwyllgor Safonau am gyhoeddi tri Chanllaw Arlywyddol gan Banel Dyfarnu Cymru
ADRODDIAD GAN:	Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol mwyics@ynysmon.gov.uk
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Yn dilyn ymgynghori dros gyfnod yr haf, mae Panel Dyfarnu Cymru (PDC) wedi cyhoeddi tri chanllaw arlywyddol, ar
- Anhysbysrwydd
 - Datgelu; a
 - Rôl y Swyddog Monitro mewn achosion PDC
- 1.2 Nid yw dogfennau canllawiau arlywyddol yn gyfreithiol rwymol ac fe'u darperir i gynorthwyo swyddogion monitro, y partion, awdurdodau perthnasol a'u haelodau, a'r cyhoedd yn ehangach i ddeall eu rôl mewn achosion PDC. Nid yw'r canllawiau'n gyfystyr â chyngor cyfreithiol ac nid ydynt yn disodli dyletswyddau'r unigolion eu hunain, gofynion eu Côd Ymddygiad eu hunain os yw'n berthnasol na'u cyfrifoldebau proffesiynol, ond maent yn ffynhonnell gynghori ddefnyddiol i'w chymryd i ystyriaeth pan ystyrir achosion PDC a gallent fod yn ddefnyddiol mewn cysylltiad efo materion sydd gerbron y Pwyllgor Safonau.
- 1.3 Er nad yw'r dogfennau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar waith y Pwyllgor Safonau, maent yn rhoi mewnwelediad i weithrediad ac ystyriaethau PDC ac felly maent yn ddadlennol ac yn rhoi rhywfaint o gefndir i aelodau'r Pwyllgor Safonau. Bydd eu perthnasedd i Aelodau'r Cyngor Sir a'r Cyngorau Cymuned yn gyfyngedig oni bai y bydd aelodau yn destun achos PDC.

2. CANLLAWIAU ARLYWYDDOL

- 2.1 Isod mae crynodeb o'r prif elfennau sydd wedi'u cynnwys ym mhob un o'r canllawiau arlywyddol a gyhoeddir gan PDC.

2.2 Canllawiau

Canllawiau Arlywyddol – Anhysbysrwydd

Mae'r Canllawiau (**Atodiad 1**) yn cynorthwyo ar y mater Anhysbysrwydd. Mae'r prif faterion yr ymdrinnir â hwy yn y Canllawiau yn cynnwys:

- **Grym i anonymeiddio:**

Er nad oes gan PDC y grym i gyhoeddi gorchmynion cyfyngiadau adrodd nac i reoli'r hyn a adroddir gan y wasg neu trwy'r cyfryngau cymdeithasol, mae ganddo'r grym i reoli ei achosion ei hun a rhoi cyfarwyddiadau i'r partïon, tystion a thrydydd partïon.

Mae gwrandawiadau terfynol PDC yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, ac eithrio pan fydd y tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusurwydd er anfantais i fuddiannau cyfiawnder. Fodd bynnag, gall anonymeiddio ganiatáu i'r gwrandawriad cyfan, neu'r rhan fwyaf ohono, gael ei gynnal yn gyhoeddus, gan alluogi'r cyhoedd i ddeall yr achos yn llawn heb dorri hawliau'r unigolyn anhysbys. Mae hyn yn cydymffurfio â'r egwyddor cyfiawnder agored; mae'n llai cyfyngol i anonymeiddio unigolion na chael gwrandawriad sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol breifat.

➤ **Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol:**

Prif amcan PDC yw sicrhau cyfiawnder yn unol â'r hawl i wrandawriad teg, ond os yw'n gwbl angenrheidiol i beidio datgelu tystiolaeth neu hunaniaeth unigolyn i'r cyhoedd am resymau budd cyfiawnder, gellir cyfarwyddo hynny yn dilyn ystyriaeth gytbwys o amrywiol hawliau'r rheini sy'n cymryd rhan a'r egwyddor cyfiawnder agored. Mae'r Confensiwn yn rhoi hawl i bartïon gael gwrandawriad teg a chyhoeddus, ond gellir cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r gwrandawriad cyfan neu ran ohono lle mae buddiannau'r partïon yn mynnu hynny, neu i'r graddau sy'n gwbl angenrheidiol os byddai cyhoeddusurwydd er anfantais i fuddiannau cyfiawnder.

➤ **Dull gweithredu PDC**

Mewn rhai amgylchiadau, gellir anonymeiddio achwynwyr, tystion neu drydydd partïon fel y cyfarwyddir gan dribiwnlys PDC neu'r Llywydd at ddibenion y gwrandawriad a'r penderfyniad; ond bydd yr unigolyn hwnnw yn hysbys i'r partïon a'r tribiwnlys. Ni fydd yr aelod sy'n destun yr achos yn ddi-enw.

Dim ond y tribiwnlys sy'n gwrandawrio achos neu'r Llywydd all roi cyfarwyddiadau mewn perthynas ag anhysbysurwydd - ni all unrhyw barti warantu anhysbysurwydd i achwynydd, tyst neu drydydd parti.

➤ **Mesurau ymarferol y gellir eu defnyddio i sicrhau anhysbysurwydd**

- Defnyddio "Tyst A / B / C / ac ati" neu "Mr / Ms A / B / C ac ati" ar ddogfennau
- Newid Bwndel y Gwrandawriad
- Mesurau Arbennig fel sgriniau / cysylltiadau fideo,

2.3 Canllawiau Arlywyddol – Datgelu

Mae'r Canllawiau (**Atodiad 2**) yn cynorthwyo gyda'r mater Datgelu. Mae'r prif elfennau a gwmpesir yn y Canllawiau yn cynnwys:

➤ **Cyffredinol**

Gall y tribiwnlys dderbyn tystiolaeth o unrhyw ffaith sy'n ymddangos i'r tribiwnlys ei fod yn berthnasol, er gwaethaf na fyddai modd derbyn y cyfryw dystiolaeth mewn achos gerbron llys barn. Dylai'r tribiwnlys ganiatáu i dystiolaeth gael ei chynnwys os yw'n deg gwneud hynny (er budd cyfiawnder) a bod y dystiolaeth yn berthnasol i'r penderfyniadau y mae'n rhaid iddo eu gwneud; gall beidio derbyn tystiolaeth amherthnasol.

➤ **Cyn i achos y PDC gychwyn**

Cyhoeddir adroddiad terfynol gan OGCC, yn nodi'r honiadau a wnaed yn wreiddiol, y dystiolaeth a gasglwyd, a'i gasgliadau. Mae'r dystiolaeth y mae OGCC yn dibynnu arni yn cael ei harddangos i'r adroddiad terfynol a'i chyflwyno i'r aelod a naill ai i'r pwyllgor safonau neu PDC.

Mae OGCC wedi cytuno i gyflwyno atodlen sy'n nodi pa ddeunydd sydd ar gael ond nas defnyddiwyd, (mae hwn yn ddeunydd na ddefnyddiwyd i baratoi'r adroddiad terfynol), beth ydyw, a ble mae, pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol. Gall yr atodlen o ddeunydd nas

defnyddiwyd fod mewn dwy ran - tystiolaeth gyffredin a thystiolaeth sensitif. Diffinnir tystiolaeth sensitif at y dibenion hyn fel tystiolaeth sy'n ymwneud â diogelwch gwladol, a gyflwynir gan ddisgwyl y cedwir hi'n gyfrinachol, sy'n ymwneud ag ymchwiliad neu achos troseddol, sy'n ymwneud â rhywun dan oed, neu'n ymwneud â bywyd preifat tyst (nid yr aelod) neu drydydd parti . Os yw'r aelod yn gwneud cais i gael datgelu tystiolaeth a restrir yn yr atodlen o ddeunydd nas defnyddiwyd, dylid gofyn amdani cyn pen 28 diwrnod i dderbyn yr atodlen. Gall y tribiwnlys hefyd gyfarwyddo datgelu dogfen o'r atodlen o ddeunydd nas defnyddiwyd.

➤ **Unwaith y bydd yr achos wedi cychwyn**

Unwaith y bydd OGCC wedi gwneud y cyfeiriad neu pan fydd Llywydd PDC (neu'r dirprwy) wedi rhoi caniatâd i apelio, daw'r Panel yn gyfrifol am benderfynu pa dystiolaeth y gellir ei datgelu. Bydd yn rhoi cyfarwyddiadau lle bo hynny'n briodol.

➤ **Grymoedd PDC**

Mae gan PDC rym i fynnu cael dogfennau neu i ofyn am fanylion gan unrhyw berson, p'un a ydynt yn barti neu'n barti â diddordeb yn yr achos ai peidio. Os yw parti angen tystiolaeth neu wybodaeth gan unrhyw berson er mwyn cyflwyno eu hachos yn deg i PDC, ac nad ydynt wedi gallu ei chael yn uniongyrchol eu hunain, dylent wneud cais i PDC am gyfarwyddiadau neu orchymyn i gael y dystiolaeth neu'r manylion.

➤ **Y Swyddog Monitro**

Hysbysir y swyddog monitro o'r achos a chaiff wahoddiad i fynychu'r gwrandawriad terfynol. Mae rôl y swyddog monitro wedi'i nodi'n fanylach yn y Canllawiau Arlywyddol "*Rôl y Swyddog Monitro mewn achosion PDC*" (gweler isod).

2.4 Canllawiau Arlywyddol "*Rôl y Swyddog Monitro mewn achosion PDC*"

Mae'r Canllawiau (**Atodiad 3**) yn cynorthwyo ar fater rôl y Swyddog Monitro mewn achosion PDC. Mae'r prif bynciau sy'n cael sylw yn y Canllawiau yn cynnwys:

➤ **Sefyllfa'r Swyddog Monitro**

Nid yw swyddog monitro awdurdod perthnasol y mae ei Gôd Ymddygiad yn elfen ganolog o'r achos APW yn barti yn yr achos, ond mae'n bresennol i gynorthwyo a hysbysu'r tribiwnlys. Fe'u hysbysir o'r achos a dyddiad y gwrandawriad, ac maent yn derbyn copïau o'r cyfarwyddiadau rhestru a'r penderfyniad terfynol. Mae'r swyddog monitro fel arfer yn mabwysiadu rôl niwtral.

➤ **Mynychu'r gwrandawriad terfynol**

Gwahoddir y swyddog monitro i fynychu'r gwrandawriad terfynol (neu i anfon dirprwy) i gynorthwyo'r tribiwnlys ac i wneud sylw priodol os dymunant ar bob cam o'r achos. Bydd eu presenoldeb yn y gwrandawriad hefyd yn galluogi'r swyddog monitro i roi adroddiad manwl i'r pwyllgor safonau a'r Cyngor ac i ddelio ag unrhyw ymholiadau gan y wasg fel sy'n briodol.

➤ **Gwybodaeth sydd raid wrthi gan y swyddog monitro**

Mae ymholiadau arferol i'r swyddog monitro yn cynnwys cadarnhad ynghylch pryd y cytunodd y cynghorydd i lynu wrth y Côt, pryd y cafodd y cynghorydd hyfforddiant ar y Côt neu a yw'r cynghorydd hefyd yn aelod o awdurdod perthnasol aralln hefyd, megis cyngor tref neu gymuned neu awdurdod parc cenedlaethol.

Bydd Cofrestrydd PDC yn gofyn i'r swyddog monitro gadarnhau a yw pwyllgor safonau wedi dyfarnu'n anffafriol yn erbyn y cynghorydd am dorri'r Côt yn y gorffennol; ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei datgelu i'r tribiwnlys oni bai bod yr achos yn cyrraedd y cam pennu cosb. Bryd hynny, bydd y clerc yn darparu'r wybodaeth hon i'r tribiwnlys ond rhoddir cyfle i'r swyddog monitro roi sylwadau, ymhelaethu neu ddiweddarau'r wybodaeth a ddarperir ar lafar yn y gwrandawriad.

➤ **Datgelu**

Y cyfarwyddyd safonol a roddir i swyddogion monitro mewn gohebiaeth gan y Cofrestrydd yw y dylid darparu unrhyw dystiolaeth y maent yn dymuno ei darparu naill ai'n uniongyrchol i'r Cofrestrydd pan gyfarwyddir gan y tribiwnlys neu i OGCC i'w hystyried. Mae hyn yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a all gael eu codi naill ai gan y rheoliadau neu'r ddeddfwriaeth diogelu data yn y mwyafrif llethol o achosion ynghylch datgelu dogfennau gan y swyddog monitro.

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys canllawiau arlywyddol PDC sydd wedi'u cynnwys fel **Atodiadau 1-3** i'r adroddiad hwn.



Canllawiau'r Llywydd: Anonymeiddio

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhwymo mewn cyfraith a chânt eu darparu er mwyn helpu swyddogion monitro, y partïon, awdurdodau perthnasol a'u haelodau, a'r cyhoedd yn gyffredinol i ddeall eu rôl yn achosion Panel Dyfarnu Cymru ("PDC"). Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys cyngor cyfreithiol ac atgoffir y rhai sy'n ystyried y canllawiau hyn nad yw'r canllawiau'n disodli eu dyletswyddau eu hunain, gofynion eu Cod Ymddygiad eu hunain os yw'n gymwys na'u rhwymedigaethau proffesiynol.

Pŵer i anonymeiddio

1. Nid oes gan PDC bŵer i wneud gorchmynion gohebu cyfyngedig nac i reoli beth mae'r wasg neu'r cyfryngau cymdeithasol yn ei ohebu. Er hyn, mae ganddo'r pŵer i reoli ei achosion ei hun ac i roi cyfarwyddyd i bartïon, tystion a thrydydd partïon.
2. Mae'r gyfraith ar ohebu am droseddau rhywiol ac enwi dioddefwyr honedig (Adran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 1992) yn gymwys i'r rhai hynny sy'n cyhoeddi gwybodaeth am achosion PDC lle bo'n berthnasol; bydd y tribiwnlys sy'n ystyried materion o'r fath yn atgoffa'r rhai sy'n bresennol ynglŷn â'r darpariaethau hyn os yw hynny'n bosibl, ond maent yn gymwys pa un a yw'r rhai sy'n bresennol yn cael eu hatgoffa ai peidio. Bydd PDC yn ystyried sut i ddelio gyda materion sy'n ymwneud â'r posibilrwydd bod troseddau rhywiol wedi'u cyflawni a bydd yn rhoi'r cyfarwyddiadau angenrheidiol i'r partïon cyn dechrau'r gwrandawriad terfynol.
3. Mewn achosion priodol, gellir anonymeiddio hunaniaeth achwynydd, tyst neu drydydd parti ar gyfarwyddyd tribiwnlys PDC neu'r Llywydd at ddibenion y gwrandawriad a'r penderfyniad, ond bydd hunaniaeth yr unigolyn hwnnw yn wybyddus i'r partïon ac i'r tribiwnlys. Ni ellir anonymeiddio hunaniaeth yr aelod y mae'r achos yn ymwneud ag ef.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

4. Prif amcan PDC yw sicrhau cyfiawnder yn unol â'r hawl i wrandawriad teg, ond os yw'n hollol angenrheidiol sicrhau nad yw tystiolaeth neu hunaniaeth unigolyn yn cael eu hystyried gan y cyhoedd oherwydd bod angen gwneud hynny er mwyn sicrhau cyfiawnder, gellir rhoi cyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw yn dilyn ystyriaeth gytbwys o hawliau amrywiol y rhai sy'n gysylltiedig â'r achos ac egwyddor cyfiawnder agored. Mae'r Confensiwn yn rhoi'r hawl i bartïon gael gwrandawriad teg a chyhoeddus, ond gellir gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r gwrandawriad cyfan neu ran ohono os oes angen hynny er mwyn sicrhau buddiannau'r partïon, neu i'r

graddau y mae hynny'n hollol angenrheidiol oherwydd y byddai cyhoedduswydd yn amharu ar y gallu i sicrhau cyfiawnder.

5. Mae'r hawliau y gellir eu defnyddio yn cynnwys yr hawl i breifatrwydd a'r hawl i fywyd teuluol, yn ogystal â'r hawl i ryddid mynegiant, sydd at ei gilydd yn cael ei defnyddio bob amser yn achosion PDC. Gallai enghreifftiau o adegau pan allai hawliau o'r fath gael eu defnyddio gynnwys datgelu gwybodaeth feddygol yn ymwneud â thyst (gan fod gwybodaeth o'r fath yn gyfrinachol), datgelu gwybodaeth bersonol am dyst gan achosi poen a chodi cywilydd arno lle nad yw cyhoeddi gwybodaeth o'r fath er budd y cyhoedd, neu ddatgelu gwybodaeth sy'n effeithio ar bobl ifanc dan oed.

Dull gweithredu PDC

6. Cynhelir gwrandawriadau terfynol PDC yn gyhoeddus, ac eithrio lle mae'r tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoedduswydd yn amharu ar y gallu i sicrhau cyfiawnder. Fodd bynnag, gall anonymeiddio olygu bod modd cynnal y gwrandawriad cyfan neu'r rhan fwyaf ohono yn gyhoeddus, gan alluogi'r cyhoedd i ddeall yr achos yn llawn heb fynd yn groes i hawliau'r unigolyn y cuddiwyd ei hunaniaeth. Mae hyn yn cydymffurfio ag egwyddor cyfiawnder agored; mae anonymeiddio unigolion yn llai cyfyngol na chael gwrandawriad cwbl breifat neu rannol breifat.
7. Sylweddolir na fydd rhai achwynwyr yn gwneud cwyn oni bai eu bod yn debygol o gael eu hanonymeiddio yn y gwrandawriad. Os na chaniateir anonymeiddio gallai ofn neu ofid amharu ar ansawdd y dystiolaeth a roddir mewn gwrandawriad. Dim ond y tribiwnlys sy'n gwrando'r achos neu'r llywydd all wneud cyfarwyddyd o'r fath – ni all unrhyw barti warantu y caiff achwynydd, tyst neu drydydd parti ei anonymeiddio.
8. Wrth ystyried a ddylid dweud bod angen anonymeiddio, bydd y tribiwnlys yn ystyried ac yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolyn dan sylw ac egwyddor cyfiawnder agored a'r hawl i wrandawriad teg yn gyhoeddus, ac effaith debygol anonymeiddio (neu beidio â gwneud hynny) ar y dystiolaeth i'w dangos. Bydd hefyd yn ystyried a yw hunaniaeth yr unigolyn eisoes yn hysbys i lawer, gan y byddai hynny'n golygu nad oes diben anonymeiddio. Bydd yn rhoi rhesymau dros ei benderfyniad i'r partion.
9. Os bydd person sydd â diddordeb, megis y wasg, yn dymuno gwneud cais i roi'r gorchymyn anonymeiddio o'r neilltu, gall wneud cais i'r tribiwnlys a gofyn i'r tribiwnlys glywed y cais. Mater i'r tribiwnlys yw penderfynu pryd y dylid ystyried y cais, ond gofynnir am farn y partion a bydd pob barn yn cael ei hystyried. Mae'n bosibl y gofynnir am farn yr unigolyn ei hun, ond nid o reidrwydd. Bydd hyn yn dibynnu ar ddull gweithredu'r tribiwnlys.

Mesurau ymarferol

10. Er mwyn diogelu rhag datgelu'n anfwriadol, ar ddechrau'r gwrandawriad ac ar ddechrau tystiolaeth tyst perthnasol bydd y cadeirydd yn atgoffa'r partion, y tystion

a'r cyhoedd bod hunaniaeth unigolyn arbennig wedi'i hanonymeiddio ac y dylid cyfeirio ato fel "Tyst A/B/C/ ac yn y blaen" neu "Mr/Ms A/B/C ac yn y blaen".

11. Gellir golygu neu addasu bwndel y gwrandawriad er mwyn sicrhau bod enw'r person sydd wedi'i anonymeiddio yn dilyn y cyfarwyddyd a roddwyd, gan ddibynnu ar gyfarwyddiadau'r tribiwnlys. Rhaid golygu neu addasu bwndel y tyst ac unrhyw fwndel i'r wasg (os caiff ei baratoi) mewn modd sy'n sicrhau na ddatgelir hunaniaeth os caiff y bwndel ei archwilio gan y wasg neu'r cyhoedd.
12. Gall y tribiwnlys ddatgan bod angen defnyddio mesurau arbennig, megis sgrin neu gyswllt fideo, i alluogi'r tyst i roi tystiolaeth heb ddatgelu ei hunaniaeth.
13. Cyn dechrau achosion PDC, os bydd y partiön yn rhagweld ei bod yn debygol iawn y caiff hunaniaeth tyst neu drydydd parti ei hanonymeiddio wrth gasglu tystiolaeth, gallant gyflwyno fersiwn addas wedi'i olygu o'r dystiolaeth (yn anonymeiddio enw'r unigolyn yn unig ac yn rhoi enw priodol wedi'i anonymeiddio yn ei le) i PDC i'w gynnwys yn y bwndel. Fodd bynnag, rhaid datgelu'r dystiolaeth wreiddiol i'r parti arall, naill ai cyn anfon y mater i PDC neu pan ddatgelir y dystiolaeth wedi'i golygu i PDC. Rhaid tynnu sylw'r tribiwnlys at y golygiad mewn llythyr eglurhaol, a rhaid i'r llythyr hefyd gynnwys y rhesymau dros y golygiad a chais am gyfarwyddiadau yn caniatáu'r anonymeiddio fel y gofynnir amdano.
14. Mae PDC yn disgwyl i'r partiön geisio cytuno ar fater anonymeiddio cyn cyflwyno bwndel wedi'i anonymeiddio i'r panel, ond os na ellir dod i gytundeb, cyn belled â bod y broses a amlinellir uchod yn cael ei dilyn, gall un parti wneud cais am anonymedd ar gyfer unigolyn/unigolion a chyflwyno bwndel wedi'i anonymeiddio i'w gymeradwyo gan y panel neu'r Llywydd.

Claire Sharp

Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru

Medi 2020



Canllawiau'r Llywydd: Datgelu

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhwymo mewn cyfraith a chânt eu darparu er mwyn helpu swyddogion monitro, y partïon, awdurdodau perthnasol a'u haelodau, a'r cyhoedd yn gyffredinol i ddeall eu rôl yn achosion Panel Dyfarnu Cymru ("PDC"). Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys cyngor cyfreithiol ac atgoffir y rhai sy'n ystyried y canllawiau hyn nad yw'r canllawiau'n disodli eu dyletswyddau eu hunain, gofynion eu Cod Ymddygiad eu hunain os yw'n gymwys na'u rhwymedigaethau proffesiynol.

Cyffredinol

1. Yn wahanol i ymglyfreitha *inter partes* (ymglyfreitha lle mae un parti yn siwio un arall), mae PDC yn ymdrin â chyfeiriadau a wneir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC") ac apeliadau a wneir gan aelodau yn dilyn penderfyniad gan bwyllgor safonau ynglŷn â'r cwestiwn a yw'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau wedi cael ei dorri (ac os yw, y sancsiwn priodol). Ym mhob achos, mae'r aelod ac OGCC yn bartïon ac mae ganddynt hawl i gyflwyno tystiolaeth, gofyn am gael galw tystion, a gwneud sylwadau. Fodd bynnag, mater i'r tribiwnlys yw penderfynu pa dystiolaeth sydd ger ei fron, cyn belled ag y cynhelir gwrandawriad teg.
2. Gall y tribiwnlys dderbyn tystiolaeth am unrhyw ffaith sy'n ymddangos yn berthnasol i'r tribiwnlys, er na fyddai tystiolaeth o'r fath yn dderbyniol mewn achos gerbron llys barn. Ni chaiff wrthod derbyn unrhyw dystiolaeth sy'n dderbyniol mewn llys barn ac sy'n berthnasol. Mewn geiriau eraill, dylai'r tribiwnlys ganiatáu dangos tystiolaeth os yw'n deg gwneud hynny (er mwyn sicrhau cyfiawnder) ac os yw'r dystiolaeth yn berthnasol i'r penderfyniadau y mae'n rhaid iddo eu gwneud; gall eithrio tystiolaeth amherthnasol.
3. Atgoffir y partïon bod datgelu'n hollbwysig er mwyn cael gwrandawriad teg ac y dylid darparu tystiolaeth i'r parti arall ac i PDC ymlaen llaw ac mewn da bryd cyn gwrandawriad terfynol; nid yw ymdrechion i "*gynllwynio*" yn erbyn y parti arall yn unol â'naws ymarfer ymglyfreitha modern. Nid yw'n briodol ychwaith, wrth gysylltu â rhywun i ofyn iddo roi neu gyflwyno tystiolaeth, i ofyn i'r person hwnnw beidio â dweud wrth y parti arall neu PDC bod rhywun wedi cysylltu ag ef, yn enwedig swyddogion monitro, swyddogion eraill neu aelodau o awdurdod perthnasol; nid yw hyn yn golygu na ellir gofyn i berson o'r fath gadw'r cyfryw wybodaeth yn gyfrinachol at ei gilydd, ond nid mewn cysylltiad â'r parti arall neu PDC.

Cyn i achos PDC gychwyn

4. Fel arfer, cyn cychwyn achosion PDC, bydd OGCC wedi cynnal ymchwiliad llawn (gall swyddogion monitro gynnal ymchwiliadau mewn rhai amgylchiadau, ond at ei gilydd maent yn gofyn i OGCC wneud hynny). Bydd OGCC wedi casglu tystiolaeth gan yr aelod, tystion a thrydydd partion perthnasol, cynnal cyfweiliadau, a gofyn i'r aelod wneud sylw ar yr adroddiad drafft.
5. Cyhoeddir adroddiad terfynol gan OGCC, yn amlinellu'r honiadau gwreiddiol a wnaethpwyd, y dystiolaeth a gasglwyd, a'i gasgliadau. Caiff y dystiolaeth y dibynnodd OGCC arni ei harddangos i'r adroddiad terfynol a'i chyflwyno i'r aelod a naill ai'r pwyllgor safonau neu PDC.
6. Mae OGCC wedi cytuno i gyflwyno rhestr i'r aelod (a PDC pan fydd cyfeiriad ato) yn nodi pa ddeunyddiau nas defnyddiwyd sy'n bodoli hyd y gŵyr ef (deunyddiau na chawsant eu defnyddio i baratoi'r adroddiad terfynol), beth yw'r deunyddiau, a'u lleoliad (gan ei bod yn bosibl nad oes gan OGCC ddeunydd o'r fath; er enghraifft, mae'r deunydd gan y swyddog monitro) pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol. Gall y rhestr o ddeunyddiau nas defnyddiwyd fod mewn dwy ran – tystiolaeth gyffredin a thystiolaeth sensitif. Diffinnir tystiolaeth sensitif at y dibenion hyn fel tystiolaeth yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol, a roddwyd gan ddisgwyl y bydd yn cael ei chadw'n gyfrinachol, yn ymwneud ag ymchwiliad neu achos troseddol, yn ymwneud â pherson ifanc dan oed, neu yn ymwneud â bywyd preifat tyst (nid yr aelod) neu drydydd parti. Os bydd yr aelod yn gofyn am ddatgeliad o dystiolaeth a restrwyd yn y rhestr o ddeunyddiau nas defnyddiwyd, dylid gofyn amdani cyn pen 28 diwrnod ar ôl derbyn y rhestr er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen gan yr aelod neu ei gynrychiolwyr. Gall y tribiwnlys hefyd fynnu bod dogfen sydd ar y rhestr o ddeunyddiau nas defnyddiwyd yn cael ei datgelu, ond nid oes rhaid iddo wneud hynny.

Pan fydd achos PDC wedi cychwyn

7. Cyn gynted ag y gwneir y cyfeiriad gan OGCC neu y rhoddir caniatâd i apelio gan Lywydd PDC (neu ei ddirprwy), bydd y Panel yn dod yn gyfrifol am benderfynu pa dystiolaeth y gellir ei dangos. Bydd yn rhoi cyfarwyddiadau lle bo'n briodol, ond yn gyffredinol bydd yr egwyddorion a ganlyn yn gymwys:
 - a) Bydd yr adroddiad terfynol a thystiolaeth a fydd yn cael ei harddangos gydag ef yn rhan o fwndel y gwrandawriad os yw'n berthnasol ac os bydd ystyriaeth ohoni gan y tribiwnlys yn gymorth i sicrhau cyfiawnder (tynnir sylw at baragraff h isod);
 - b) Bydd ymateb yr aelod neu ei gais i apelio yn rhan o fwndel y gwrandawriad;
 - c) Bydd tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr aelod â'i ymateb yn rhan o fwndel y gwrandawriad os yw'n berthnasol ac os bydd ystyriaeth ohoni gan y tribiwnlys yn gymorth i sicrhau cyfiawnder (tynnir sylw at bwynt h isod);

- d) Bydd unrhyw benderfyniad a wnaethpwyd gan y pwyllgor safonau a thystiolaeth ategol os yw wedi'i darparu gan y partïon neu'r swyddog monitro (os nad yw eisoes yn adroddiad terfynol OGCC) yn rhan o fwndel y gwrandawriad;
- e) Bydd gohebiaeth rhwng PDC a'r partïon yn rhan o fwndel y gwrandawriad, ynghyd â rhestrau a chyfarwyddiadau neu orchmynion eraill;
- f) Gall cyflwyniadau gan y partïon fod yn rhan o fwndel y gwrandawriad (oni bai eu bod yn cael eu gwneud yn llafar), ond nid ydynt yn dystiolaeth;
- g) Rhaid i unrhyw dystiolaeth ychwanegol y mae'r partïon yn dymuno iddi gael ei hystyried, ar wahân i baragraffau a – e, naill ai fod yn destun cais a wneir i'r tribiwnlys neu gael ei chynnwys drwy gyfarwyddiadau gan y tribiwnlys ar ei liwt ei hun. Dylid gwneud ceisiadau mewn da bryd cyn i'r gwrandawriad terfynol ddechrau er mwyn i'r tribiwnlys allu gofyn am farn y parti arall a dweud beth yw ei benderfyniad; dylid gwneud ceisiadau o'r fath o leiaf 28 diwrnod clir cyn i'r gwrandawriad terfynol ddechrau, ond disgwylir y dylai ceisiadau o'r fath gael eu gwneud cyn y gynhadledd restru. Bydd ceisiadau i ddangos tystiolaeth a gyflwynir yn y gwrandawriad terfynol neu o fewn y cyfnod o 28 diwrnod cyn dechrau'r gwrandawriad terfynol yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr a bydd angen rhoi rhesymau da pam na allai'r cais fod wedi cael ei wneud yn gynharach, ac egluro pam y mae datgeliad hwyr o gymorth er mwyn sicrhau cyfiawnder;
- h) Mae gan y tribiwnlys hawl i beidio â chynnwys tystiolaeth amherthnasol ym mwndel y gwrandawriad ac i benderfynu pa dystion fydd yn cael eu galw i roi tystiolaeth. Disgwylir y bydd y partïon yn cael eu hysbysu ymlaen llaw ac y rhoddir rhesymau iddynt os na fydd tystiolaeth yn cael ei chynnwys.

Pwerau PDC

8. Mae gan PDC bŵer i ofyn am ddogfennau neu i ofyn am fanylion gan unrhyw berson, pa un a yw'n barti yn yr achos, neu'n barti â diddordeb yn yr achos, ai peidio. Os oes ar barti angen tystiolaeth neu wybodaeth gan unrhyw berson er mwyn cyflwyno ei achos i PDC yn deg, ac nad yw wedi gallu ei chael yn uniongyrchol ei hunan (tynnir sylw isod at safle arbennig swyddogion monitro), dylai wneud cais i PDC am gyfarwyddiadau neu orchymyn i gael y dystiolaeth neu'r manylion.
9. Dylid gwneud ceisiadau mewn da bryd cyn y gwrandawriad terfynol, ac yn ddelfrydol cyn y gynhadledd restru. Ni ddylid gwneud ceisiadau o'r fath yn y gwrandawriad terfynol nac yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod cyn dechrau gwrandawriad terfynol oherwydd y bydd y partïon a PDC wedi mynd i gostau yn barod ac y gallai hynny fod yn ofer (dylai'r partïon nodi bod gan PDC bŵer i wneud gorchmynion costau mewn rhai amgylchiadau). Dylai'r partïon gofio y dylid caniatáu digon o amser i'r parti arall allu gwneud cyflwyniadau ac i'r tribiwnlys ddod i benderfyniad – mae hyn yn debygol o gymryd o leiaf 28 diwrnod.

Y swyddog monitro

10. Caiff y swyddog monitro ei hysbysu ynglŷn â'r achos a'i wahodd i ddod i'r gwrandawriad terfynol. Nodir rôl y swyddog monitro'n fanylach yng Nghanllawiau'r Llywydd "*Rôl y Swyddog Monitro yn achosion PDC*". Mae'r rhan sy'n ymwneud â datgelu a swyddogion monitro yn cael ei hailadrodd isod er hwylustod ac er mwyn sicrhau bod y partïon yn deall bod y swyddog monitro yn ddiuedd a bod ganddo rôl bwysig i'w chwarae er mwyn cynnal safonau.
11. Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i swyddogion monitro chwarae rhan weithredol yn achosion PDC. Cyn achosion, mae'n debyg y bydd OGCC wedi casglu tystiolaeth berthnasol gan yr awdurdod perthnasol, gan gynnwys tystiolaeth gan y swyddog monitro, a bydd y dystiolaeth hon naill ai'n cael ei harddangos i adroddiad terfynol OGCC neu'n cael ei hamlinellu mewn rhestr o ddeunyddiau nas defnyddiwyd a ddarperir gyda'r adroddiad.
12. Er hyn, mae'n bosibl y bydd gan y swyddog monitro dystiolaeth berthnasol nad yw wedi cael ei datgelu i OGCC neu y bydd y cyngorydd neu ei gynrychiolwyr yn cysylltu ag ef i ddatgelu tystiolaeth. Ni ddylai swyddogion monitro gymryd ochr a disgwylir iddynt barhau'n ddiuedd yn unol â gofynion eu rôl. Mae'n briodol i swyddog monitro gywiro camgymeriad ffeithiol a wneir gan dyst (fel rhan o'i rôl a amlinellir uchod o ddarparu gwybodaeth ffeithiol i'r tribiwnlys mewn cysylltiad ag unrhyw dystiolaeth sydd ger ei fron yn barod), ond ni ddylai fabwysiadu safbwynt ynglŷn â'r penderfyniad a fydd yn cael ei wneud gan y tribiwnlys. Yn yr un modd, rydym yn sylweddoli y gallai fod angen i'r swyddog monitro fod yn dyst drwy ei hawl ei hun os yw'n dyst i ddigwyddiad y mae anghydfod yn ei gylch neu os ef a wnaeth y gŵyn gychwynnol (er enghraifft ar ran swyddogion iau); nid yw hyn yn cael ei ystyried fel rhywbeth sydd y tu allan i'w rôl niwtral cyn belled â bod y dystiolaeth yn ymdrin â materion ffeithiol yn unig.
13. Atgoffir Swyddogion Monitro, os cafodd yr ymchwiliad ei wneud ganddynt hwy (yn hytrach nag OGCC), y bydd Rheoliad 5 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 ("y Rheoliadau") yn berthnasol, ac nad yw PDC wedi'i restru fel endid a all yn gyfreithlon dderbyn gwybodaeth a gafwyd gan y swyddog monitro yn uniongyrchol wrth gynnal yr ymchwiliad, yn wahanol i OGCC. Mae gan PDC bŵer i ofyn am dystiolaeth gan unrhyw berson drwy gyfarwyddiadau a gorchmynion dan Reoliad 7, gan gynnwys gwybodaeth a gasglwyd gan y swyddog monitro dan Reoliad 5.
14. Y cyfarwyddyd safonol a roddir i swyddogion monitro mewn gohebiaeth gan y Cofrestrydd yw y dylai unrhyw dystiolaeth y dymunant ei darparu yn gyffredinol gael ei darparu naill ai'n uniongyrchol i'r Cofrestrydd pan fydd y tribiwnlys yn rhoi cyfarwyddyd i wneud hynny neu i OGCC i gael ei hystyried ganddo ef. Mae hyn yn rhoi sylw i unrhyw bryderon a allai gael eu codi gan naill ai'r rheoliadau neu ddeddfwriaeth diogelu data yn y rhan fwyaf o achosion ynglŷn â datgelu dogfennau gan y swyddog monitro.

15. Pan fydd achosion PDC wedi cychwyn, y tribiwnlys fydd yn penderfynu pa dystiolaeth sydd ym mwndel y gwrandawriad (yn amodol ar geisiadau gan y partïon lle bo'n berthnasol). Os yw swyddog monitro'n bryderus bod ganddo dystiolaeth berthnasol nad yw wedi cael ei datgelu o'r blaen i OGCC a bod achos PDC wedi cychwyn, dylai naill ai ystyried gwneud cais i'r tribiwnlys yn gofyn am gyfarwyddiadau ar ei liwt ei hun er mwyn gallu datgelu i OGCC, y cynghorydd/cynrychiolwyr y cynghorydd a'r tribiwnlys, neu ddatgelu'r dystiolaeth i OGCC (sydd wedi ymrwmo i sicrhau y bydd y cynghorydd yn derbyn y cyfryw dystiolaeth wedyn). Dylid cyflwyno ceisiadau datgelu i'r tribiwnlys cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau nad yw'r gwrandawriad terfynol yn cael ei ddal yn ôl.
16. Os bydd un o'r partïon yn gofyn i swyddog monitro gadw cais am ddatgeliad yn gyfrinachol, rhaid iddo ddefnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu a ddylai gytuno, ond mae PDC yn disgwyl na fydd datgeliad yn cael ei wneud y tu allan i'w gyfarwyddiadau (boed drwy'r cyfarwyddyd a amlinellwyd yn ei lythyr safonol i swyddogion monitro neu gyfarwyddiadau ar gyfer achosion penodol a wneir gan y tribiwnlys) neu'r canllawiau hyn pan fydd yr achos wedi cychwyn. Pwrpas hyn yw sicrhau gwrandawriad teg pan fydd achos PDC wedi cychwyn a galluogi'r ddwy ochr i dderbyn datgeliad.

Claire Sharp

Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru

Medi 2020



Canllawiau'r Llywydd: Rôl y Swyddog Monitro yn achosion PDC

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhwymo mewn cyfraith a chânt eu darparu er mwyn helpu swyddogion monitro, y partïon, awdurdodau perthnasol a'u haelodau, a'r cyhoedd yn gyffredinol i ddeall rôl y swyddog monitro yn achosion Panel Dyfarnu Cymru ("PDC"). Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys cyngor cyfreithiol ac atgoffir swyddogion monitro nad yw'r canllawiau'n disodli eu dyletswyddau eu hunain, gofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr na rhwymedigaethau proffesiynol.

Lle'r swyddog monitro

1. Nid yw swyddog monitro awdurdod perthnasol y mae ei God Ymddygiad wrth graidd achos PDC yn barti i'r achos, ond mae'n bresennol er mwyn helpu'r tribiwnlys a darparu gwybodaeth iddo. Caiff ei hysbysu ynglŷn â'r achos a dyddiad y gwrandawriad, a bydd yn derbyn copïau o'r cyfarwyddiadau rhestru a'r penderfyniad terfynol. Fel arfer mae gan y swyddog monitro rôl niwtral.

Mynd i'r gwrandawriad terfynol

2. Gwahoddir y swyddog monitro i fod yn bresennol yn y gwrandawriad terfynol (neu i anfon dirprwy) er mwyn cynorthwyo'r tribiwnlys i wneud arsylwad neu sylw priodol os yw'n dymuno gwneud hynny ym mhob cam o'r achos. Mae hwn yn gyfle i'r swyddog monitro egluro unrhyw bwyntiau trefniadol yn ymwneud â busnes yr awdurdod perthnasol neu ddarparu gwybodaeth ffeithiol i'r tribiwnlys mewn cysylltiad ag unrhyw dystiolaeth sydd ger ei fron yn barod. Gall y swyddog beidio â gwneud sylw.
3. Nid yw gwahoddiad y tribiwnlys i siarad yn y gwrandawriad llafar yn gyfle i'r swyddog monitro ddangos tystiolaeth newydd nad yw wedi ei datgelu o'r blaen; yn gyffredinol, dylid darparu unrhyw dystiolaeth y dymunir ei darparu naill ai'n uniongyrchol i'r Cofrestrydd pan roddir cyfarwyddyd gan y tribiwnlys neu i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC") i'w hystyried ganddo ef (gweler yr adran isod ar ddatgelu).
4. Yn y pen draw, mae'n bosibl y gofynnir i'r swyddog monitro ddarparu neu drefnu hyfforddiant pellach i'r cynghorydd neu weithredu materion yn ymwneud ag ymarfer swyddogaethau'r awdurdod, Cod yr awdurdod, neu bwyllgor safonau'r awdurdod os bydd y tribiwnlys yn argymhell hynny. Bydd ei bresenoldeb yn y gwrandawriad hefyd yn galluogi'r swyddog monitro i roi adroddiad manwl i'r pwyllgor safonau a'r Cyngor ac i ymdrin ag unrhyw ymholiadau gan y wasg fel y bo'n briodol.

Gwybodaeth y gofynnir amdani gan y swyddog monitro

5. Mae ymholiadau arferol y gellir eu cyflwyno i'r swyddog monitro gan naill ai OGCC neu'r tribiwnlys drwy ei gyfarwyddiadau neu ohebiaeth drwy'r Cofrestrydd yn cynnwys cadarnhad ynglŷn â phryd y cytunodd y cynghorydd i ymrwymo i'r Cod, pryd y derbyniodd y cynghorydd hyfforddiant ar y Cod neu a yw'r cynghorydd hefyd yn aelod o awdurdod perthnasol arall, megis cyngor tref neu gymuned neu awdurdod parc cenedlaethol. Gofynnir iddo hefyd gadarnhau dyddiadau cyfarfodydd llawn y cyngor neu fusnes cyngor perthnasol a allai effeithio ar restru'r gwrandawriad, a'r dyddiadau nad yw ef/hi yn bersonol ar gael.
6. Bydd Cofrestrydd PDC yn gofyn i'r swyddog monitro gadarnhau a wnaethpwyd unrhyw ddyfarniadau anffafriol blaenorol gan bwyllgor safonau ynglŷn ag achos lle mae'r cynghorydd wedi torri'r Cod; ni chaiff yr wybodaeth hon ei datgelu i'r tribiwnlys oni bai ei bod yn cyrraedd cam sancsiynau'r achos. Bryd hynny, bydd y clerc yn darparu'r wybodaeth hon i'r tribiwnlys ond rhoddir cyfle i'r swyddog monitro wneud sylw, ymhelaethu neu ddiweddarau'r wybodaeth a roddwyd yn llafar yn y gwrandawriad.

Datgelu

7. Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i swyddogion monitro chwarae rhan weithredol yn achosion PDC. Cyn achosion, mae'n debyg y bydd OGCC wedi casglu tystiolaeth berthnasol gan yr awdurdod perthnasol, gan gynnwys tystiolaeth gan y swyddog monitro, a bydd y dystiolaeth hon naill ai'n cael ei harddangos i adroddiad terfynol OGCC neu'n cael ei hamlinellu mewn rhestr o ddeunyddiau nas defnyddiwyd a ddarperir gyda'r adroddiad.
8. Er hyn, mae'n bosibl y bydd gan y swyddog monitro dystiolaeth berthnasol nad yw wedi cael ei datgelu i OGCC neu y bydd y cynghorydd neu ei gynrychiolwyr yn cysylltu ag ef i ddatgelu tystiolaeth. Ni ddylai swyddogion monitro gymryd ochr a disgwylir iddynt barhau'n ddiuedd yn unol â gofynion eu rôl. Mae'n briodol i swyddog monitro gywiro camgymeriad ffeithiol a wneir gan dyst (fel rhan o'i rôl a amlinellir uchod o ddarparu gwybodaeth ffeithiol i'r tribiwnlys mewn cysylltiad ag unrhyw dystiolaeth sydd ger ei fron yn barod), ond ni ddylai fabwysiadu safbwynt ynglŷn â'r penderfyniad a fydd yn cael ei wneud gan y tribiwnlys. Yn yr un modd, rydym yn sylweddoli y gallai fod angen i'r swyddog monitro fod yn dyst drwy ei hawl ei hun os yw'n dyst i ddigwyddiad y mae anghydfod yn ei gylch neu os mai ef a wnaeth y gŵyn gychwynol (er enghraifft ar ran swyddogion iau); nid yw hyn yn cael ei ystyried fel rhywbeth sydd y tu allan i'w rôl niwtral cyn belled â bod y dystiolaeth yn ymdrin â materion ffeithiol yn unig.
9. Atgoffir Swyddogion Monitro, os cafodd yr ymchwiliad ei wneud ganddynt hwy (yn hytrach nag OGCC), y bydd Rheoliad 5 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 ("y Rheoliadau") yn berthnasol, ac nad yw PDC wedi'i restru fel endid a all yn gyfreithlon dderbyn gwybodaeth a gafwyd gan y swyddog monitro yn uniongyrchol wrth gynnal yr ymchwiliad, yn wahanol i OGCC. Mae gan PDC bŵer i ofyn am

dystiolaeth gan unrhyw berson drwy gyfarwyddiadau a gorchmynion dan Reoliad 7, gan gynnwys gwybodaeth a gasglwyd gan y swyddog monitro dan Reoliad 5.

10. Y cyfarwyddyd safonol a roddir i swyddogion monitro mewn gohebiaeth gan y Cofrestrydd yw y dylai unrhyw dystiolaeth y dymunant ei darparu yn gyffredinol gael ei darparu naill ai'n uniongyrchol i'r Cofrestrydd pan fydd y tribiwnlys yn rhoi cyfarwyddyd i wneud hynny neu i OGCC i gael ei hystyried ganddo ef. Mae hyn yn rhoi sylw i unrhyw bryderon a allai gael eu codi gan naill ai'r rheoliadau neu ddeddfwriaeth diogelu data yn y rhan fwyaf o achosion ynglŷn â datgelu dogfennau gan y swyddog monitro.
11. Pan fydd achosion PDC wedi cychwyn, y tribiwnlys fydd yn penderfynu pa dystiolaeth fydd ym mwndel y gwrandawriad (yn amodol ar geisiadau gan y partiön lle bo'n berthnasol). Os yw swyddog monitro'n bryderus bod ganddo dystiolaeth berthnasol nad yw wedi cael ei datgelu o'r blaen i OGCC a bod achos PDC wedi cychwyn, dylai naill ai ystyried gwneud cais i'r tribiwnlys yn gofyn am gyfarwyddiadau ar ei liwt ei hun er mwyn gallu datgelu i OGCC, y cynghorydd/cynrychiolwyr y cynghorydd a'r tribiwnlys, neu ddatgelu'r dystiolaeth i OGCC (sydd wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y cynghorydd yn derbyn y cyfryw dystiolaeth wedyn). Dylid cyflwyno ceisiadau datgelu i'r tribiwnlys cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau nad yw'r gwrandawriad terfynol yn cael ei ddal yn ôl.
12. Os bydd un o'r partiön yn gofyn i swyddog monitro gadw cais am ddatgeliad yn gyfrinachol, rhaid iddo ddefnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu a ddylai gytuno, ond mae PDC yn disgwyl na fydd datgeliad yn cael ei wneud y tu allan i'w gyfarwyddiadau (boed drwy'r cyfarwyddyd a amlinellwyd yn ei lythyr safonol i swyddogion monitro neu gyfarwyddiadau ar gyfer achosion penodol a wneir gan y tribiwnlys) neu'r canllawiau hyn pan fydd yr achos wedi cychwyn. Pwrpas hyn yw sicrhau gwrandawriad teg pan fydd achos PDC wedi cychwyn a galluogi'r ddwy ochr i dderbyn datgeliad.

Claire Sharp

Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru

Medi 2020

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	15 Rhagfyr 2020
TEITL YR ADRODDIAD:	Caniatâd Arbennig
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Hysbysu'r Pwyllgor Safonau am ganlyniad unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig a dderbyniwyd ers yr adroddiad ysgrifenedig diwethaf i'r Pwyllgor Safonau ar 11.03.2020
ADRODDIAD GAN:	Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol mwycs@ynysmon.gov.uk
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@anglesey.gov.uk 01248 752586

1. CYFLWYNIAD

Os oes gan gynghorydd sir/cynghorydd tref/cymuned ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn mater sy'n cael ei ystyried gan eu hawdurdod, mae'n ofynnol dan y côd ymddygiad fod y diddordeb yn cael ei ddatgan/gofrestru a bod yr aelod yn gadael y cyfarfod a ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth nac yn dylanwadu ar y penderfyniad(au).

Mae'r côd ymddygiad yn ymgorffori "caniatâd arbennig" o dan rai amgylchiadau cyfyngedig a restrir ym [mharagraff 12\(2\) y côd](#).

Yn ogystal, os nad yw paragraff 12(2) y Côd o gymorth, yna mae gan y Pwyllgor Safonau'r disgresiwn i roi caniatâd arbennig i aelod, o dan amgylchiadau penodol, sy'n cael eu rhestru mewn rheoliadau statudol.

Os yw'n cael ei ganiatáu, mae'r caniatâd arbennig yn goresgyn elfen ragfarnus y diddordeb (hynny yw'r rhagfarn neu'r rhagfarn ymddangosiadol) a bydd yn galluogi'r aelod i gymryd rhan yn y mater; efallai y bydd cyfyngiad ar gyfraniad yr aelod ac fe roddir y caniatâd am gyfnod penodol o amser.

2. CEFNDIR

Er mwyn cynorthwyo aelodau i ddefnyddio'r broses caniatâd arbennig pryd bynnag y bo'n briodol, ac mor effeithiol â phosib, mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyhoeddi Nodyn o Gyngor ac Arweiniad. Yn ogystal, rhoddwyd gwybodaeth i glerc cod cynghorau tref a chymuned am y posibilrwydd o dderbyn caniatâd arbennig mewn e-bost wedi ei ddyddio 6 Mawrth 2017.

Yn aml mae angen caniatâd arbennig ar fyr rybudd, ac o fewn cyfnod o rybudd cyfreithiol lleiaf posib, ac oherwydd hynny mae'r Pwyllgor Safonau wedi sefydlu trefn lle y gellir galw ar Banel o dri aelod i ddelio ag unrhyw gais a dderbynnir rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor llawn. Gall unrhyw dri aelod annibynnol / Cyngor Sir gynnal gwrandawriad i geisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr sir (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol) a chynhelir gwrandawriad i geisiadau gan gynghorwyr

tref/cymuned gan aelodau annibynnol ac aelodau cyngor tref/cymuned (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol).

3. CEISIADAU A DDERBYNIWYD ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF AR 11.03.2020

3.1 Gwrandawriad y Panel Caniatâd Arbennig ar 29 Gorffennaf 2020

- 3.1.1 [Cynhaliwyd Gwrandawriad o'r Panel Caniatâd Arbennig ar sail rithwir ar 29 Gorffennaf 2020](#) i ystyried cais a wnaed gan holl aelodau'r Cyngor Sir hwn mewn perthynas â'r "rheol chwe mis". Ystyriwyd y mater fel caniatâd bloc.
- 3.1.2 Gellir gweld yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel yn y gwrandawriad ar 29 Gorffennaf [ar-lein](#).
- 3.1.3 Ynglwm yn **Atodiad 1** mae'r cofnodion drafft o'r Panel Caniatâd Arbennig.
- 3.1.4 Penderfynodd y Panel roi caniatâd arbennig anghyfyngedig i'r holl Gynghorwyr a enwyd a oedd wedi gwneud cais am ganiatâd arbennig ar y telerau canlynol:
- ysgrifennu at swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor am y mater;
 - siarad â swyddogion y Cyngor am y mater, ar yr amod y cymerir nodyn o unrhyw drafodaethau o'r fath;
 - siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;
 - aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth / pleidleisio ar y mater;
 - pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r fath, a
 - cymryd rhan ym mhob cyfarfod allanol a chyfarfodydd unrhyw gyrff allanol yn rhinwedd eu swyddi fel aelodau o Gyngor Sir Ynys Môn.
- 3.1.5 Rhoddwyd y caniatâd arbennig ar sail seiliau statudol (a), (c), (d) a (j) a bydd yn cael ei adolygu ar ôl cyfnod o 12 mis.

4. ARGYMHELLIAD

1. Bod y Pwyllgor yn nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd a'r sail a'r amgylchiadau dros eu caniatáu.
2. Bod aelodau'r Panel yn unig (John R Jones, Rhys Davies a Sharon Warnes) yn cadarnhau/diwygio'r cofnodion drafft yn **Atodiad 1**.

PANEL CANIATÂD ARBENNIG (Y PWYLLGOR SAFONAU)**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2020**

PRESENNOL:	Aelodau Annibynnol Mr John R Jones (Cadeirydd) Dr Thomas Rhys Davies (Is-gadeirydd) Mrs Sharon Warnes
WRTH LAW:	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY) Swyddog Pwyllgor (SC)
YMDDIHEURIADAU:	Dim

Croesawodd y Cadeirydd pawb a oedd yn bresennol i gyfarfod rhithwir o'r Panel Caniatâd Arbennig.

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) fod 29 aelod y Cyngor Sir wedi gwneud cais ar y cyd am ganiatâd arbennig mewn perthynas â'r hyn a ystyriant yn ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) fod Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Chyfansoddiad y Cyngor Sir yn nodi os yw aelod yn methu â mynychu cyfarfod perthnasol o'r Cyngor am gyfnod di-dor o 6 mis, yna mae'r "rheol 6 mis" yn weithredol; h.y. mae'r aelod yn peidio â bod yn aelod etholedig a bydd isetholiad yn cael ei sbarduno. Nodwyd y gellir osgoi anghymhwysu aelod os yw'n gofyn i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r absenoldeb cyn i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) nad yw'r Cyngor wedi gallu cynnal "busnes fel arfer" oherwydd y pandemig Coronafeirws (Covid-19). Cyfeiriodd at Ddeddf Coronafeirws 2020 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cymru) 2020, sy'n lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol ac yn caniatáu i aelodau fynychu cyfarfodydd o bell. Nodwyd bod y Cyngor wedi adolygu ei amserlen Bwyllgorau a bod llai o gyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd nac yn y cyfnod cyn y Coronafeirws ac felly mae llai o gyfleoedd i aelodau fedru cydymffurfio â gofynion y "rheol 6 mis".

Nodwyd y cyflwynir adroddiad i gyfarfod llawn y Cyngor ar 8 Medi 2020, yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo fod y pandemig Coronafeirws yn rheswm i holl gynghorwyr CSYM beidio â bod yn bresennol mewn cyfarfodydd, a bod pob aelod yn cael eu gwarchod yn yr ystyr na fydd eu diffyg presenoldeb, oherwydd yr achosion o Coronafeirws, yn arwain at eu hanghymhwyso'n awtomatig am gyfnod pellach o chwe mis o'r dyddiad y daw cyfnod chwe mis gwreiddiol pob aelod unigol i ben.

Cyfeiriwyd at Reoliad 10 Deddf Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 sy'n nodi, at ddibenion cyfrifo'r chwe mis, y dylid diystyru'r cyfnod rhwng y diwrnod y daeth y Rheoliadau i rym (22 Ebrill 2020), a dyddiad cyfarfod y gwahoddir yr aelod i fod yn bresennol ynddo yn ei rôl fel aelod etholedig. Nodwyd bod y cloc yn stopio am y tro am y cyfnod rhwng 22 Ebrill a'r cyfarfod cyntaf y gwahoddir aelod i fod yn bresennol ynddo; fodd bynnag, nid yw'n cychwyn o'r newydd.

Cyflwynodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) y Canllawiau (Atodiad 4) i sylw'r Panel.

Rhoddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) gyfarwyddyd i'r Panel ynghylch diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu, fel y cyfeirir atynt yn y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau (Atodiad 1). Dim ond os ystyriant fod aelodau â diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn unol â'r ystyr yn y Côd y dylent wedyn ystyried rhoi caniatâd arbennig.

Pe byddai angen caniatâd arbennig (oherwydd i'r Panel ddod i'r canlyniad fod gan yr aelodau ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu), cynghorodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) y Panel i gyfeirio at y seiliau statudol ar gyfer rhoi caniatâd arbennig (y seiliau a gynhwysir yn Atodiad 2, ac mae'r aelodau etholedig wedi nodi'r seiliau perthnasol yn eu cais yn Atodiad 3). Os yw sail yn berthnasol, gall y Panel roi caniatâd arbennig. Dywedodd y byddai caniatâd arbennig yn caniatáu i aelodau gymryd rhan yn y mater er i ddiddordeb sy'n rhagfarnu gael ei nodi.

Gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch a ddylent ystyried rhoi caniatâd arbennig ar gyfer un cyfarfod, am 6 mis pellach, neu am weddill tymor y Cyngor hwn, hyd at fis Mai 2022?

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai ymestyn y cyfnod i ddiwedd y Cyngor presennol yn defnyddio llai o adnoddau ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd, a bod mesurau diogelu digonol ar waith, gan y byddai'n rhaid i unrhyw gais i roi estyniad pellach i'r "rheol 6 mis" gael ei ystyried gan y Cyngor llawn, mewn cyfarfod cyhoeddus.

Ystyriodd aelodau'r Panel y mater mewn sesiwn breifat. Ar ôl cynnal trafodaeth, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Panel Caniatâd Arbennig wedi dod i'r casgliad fod gan 29 aelod y Cyngor, yn eu barn hwy, ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw, ac y byddai'r Panel yn rhoi'r caniatâd arbennig y gofynnir amdano.

PENDERFYNWYD:-

- **Rhoi caniatâd arbennig i holl aelodau'r Cyngor Sir (a enwir isod) mewn perthynas â'r diddordebau hynny y cyfeirir atynt yn y cais a gynhwysir yn Atodiad 3 yr adroddiad:-**

Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard A Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Carwyn Jones, Eric W Jones, Richard O Jones, Gwilym O Jones, Robert LI Jones, R Meirion Jones, Alun Mummery, Bryan Owen, Robert G Parry, OBE, FRAGS, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts, Margaret M Roberts, Nicola Roberts, Peter S Rogers, Dafydd R Thomas, Ieuan Williams, Robyn W Williams.

- **Bod y caniatâd arbennig yn cael ei roi hyd at ddiwedd y Cyngor presennol ym mis Mai 2020.**
- **Bod yr aelodau'n datgan eu diddordeb sy'n rhagfarnu a hefyd y ffaith iddynt dderbyn caniatâd arbennig gan Banel y Pwyllgor Safonau ym mhob cyfarfod perthnasol pan gynhelir trafodaeth a/neu bleidlais yn ymwneud â'r diddordeb personol sy'n rhagfarnu a nodwyd yn y cais.**

Gweithredu:

- **Y Swyddog Monitro i ysgrifennu at y 29 aelod o Gyngor Sir Ynys Môn yn cadarnhau fod caniatâd wedi cael ei roi iddynt i gyd gyda'i gilydd yn caniatáu i bob aelod ysgrifennu, siarad a phleidleisio ar bob mater ynghylch y "rheol 6 mis".**
- **Y Swyddog Monitro i adrodd i'r Pwyllgor Safonau ar y defnydd a wnaed o'r caniatâd arbennig.**

Ar ran y Panel, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol, staff y Cyngor ac aelodau am eu diwydrwydd wrth addasu i newid yn ystod y cyfnod heriol hwn. Diolchodd i'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor am y modd y bu iddynt gynnal eu busnes yn ystod y misoedd diwethaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.55 pm

**MR JOHN R JONES
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	15 Rhagfyr 2020
TEITL YR ADRODDIAD:	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau gan y Cadeirydd
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I ddarparu copi o'r Adroddiad Blynyddol i aelodau a gwybodaeth ar y gwaith i'w gyflawni ar gyfer 2020/21.
AWDUR:	Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol mwycs@anglesey.gov.uk
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586

A CEFNDIR

- 1 Mae gofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ddarparu Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor. Dyma adroddiad cyntaf Mr John Robert Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor.
- 2 Mae'n arferol i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor sydd fel arfer yn digwydd ym mis Mai. Fodd bynnag, roedd oedi wrth gynnal Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn 2020 o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.
- 3 Cafodd Adroddiad 2020/2021 y Pwyllgor Safonau felly ei gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Medi 2020.
- 4 Mae copi o'r Adroddiad i'w weld drwy ddilyn y [ddolen hon](#).
- 5 Mae'r Adroddiad yn nodi'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i gyflawni yn ystod 2019/2020 ac mae'n cynnwys y rhaglen waith ar gyfer 2020/2021.
- 6 Mae rhaglen waith y pwyllgor ar gyfer 2020/2021 wedi'i leihau o ganlyniad i gael ei gadarnhau gydag amserlen fyrrach (mae'n 12 mis fel arfer ond wedi ei leihau i 8 mis eleni). Mae'r pandemig parhaus hefyd yn chwarae ei ran gan

fod pwysau ychwanegol ar adnoddau, yn cynnwys amser y Swyddogion sy'n cynorthwyo â rhaglen y Pwyllgor.

B ARGYMHELLIAD

- 1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

CYNGOR SIR YNYS MON	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	15.12.2020
TEITL YR ADRODDIAD:	Adolygiad y Pwyllgor Safonau o'r cofrestrau diddordebau a gedwir gan Gynghorau Tref a Chymuned
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Adrodd ar yr adolygiad arfaethedig, a gynhelir yn unol â Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020-2021
ADRODDIAD GAN:	Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol mwycs@ynysmon.gov.uk
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586

1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

- 1.1 Fel rhan o'i raglen waith, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu cynnal adolygiad o'r cofrestrau diddordebau a gedwir gan y Cynghorau Tref a Chymuned.
- 1.2 Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf yn 2018/2019. Gellir gweld copi o'r canfyddiadau yn dilyn yr adolygiad diwethaf [yma](#).

2. Y BROSES ARFEROL AR GYFER CYNNAL YR ADOLYGIAD

- 2.1 Mae'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu pa Gynghorau Tref neu Gymuned i'w hadolygu. (Gweler isod am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r broses ddethol)
- 2.2 Yna anfonir gohebiaeth gan y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, i hysbysu'r Cyngor Tref neu'r Cyngor Cymuned o fwriad y Pwyllgor Safonau i gynnal adolygiad. Mae'r llythyr yn egluro pwrpas yr ymweliad, y dogfennau y bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn dymuno eu hadolygu a sut y cyhoeddir unrhyw ganfyddiadau.
- 2.3 Trefnir amser cyfleus i bawb ar gyfer cyfarfod. Mae'r cyfarfod fel arfer yn cynnwys dau aelod o'r Pwyllgor Safonau (y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd fel arfer ac un aelod arall o'r Pwyllgor Safonau ac eithrio aelodau'r Cyngor Sir) yn cyfarfod â Chlerc y Cyngor Tref neu'r Cyngor Cymuned. Mae'r Swyddog Monitro neu'r Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn bresennol fel arfer.
- 2.4 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ffurf y cyfarfod wedi cynnwys dilyn y broses a amlinellir yn y Nodyn Methodoleg ar gael [yma](#). Mae'r broses hon yn cynnwys adolygu'r Gofrestr o Ddiddordebau a gedwir gan y Cynghorau Tref a Chymuned ynghyd â dogfennau eraill fel Ffurflenni Datganiadau o Ddiddordeb a wneir yng

nghyfarfodydd y Cyngor; Rhaglen a Chofnodion ar gyfer y Cyngor a'i Is-bwyllgorau; rhestr o enwau'r holl aelodau a chopi o'r ffurflen derbyn swydd gan bob aelod cyfredol, gan gynnwys yr ymrwymiad statudol i gydymffurfio â'r Côt Ymddygiad; cofnod o hyfforddiant a roddwyd i aelodau - fel arfer yn dyddio'n ôl i'r etholiad diwethaf.

2.5 Cynhelir adolygiad o wefan y Cyngor Tref neu Gymuned hefyd er mwyn canfod a gyhoeddir yr holl wybodaeth ofynnol a pherthnasol. Mae aelodau fel arfer yn cynnal yr adolygiad hwn ar ffurf ymarfer bwrdd gwaith cyn mynychu'r cyfarfod gyda'r Clerc.

2.6 Ar ôl y cyfarfod adolygu, y drefn arferol yw anfon –

2.6.1 Llythyrau unigol at bob un o'r Cynghorau Tref a Chymuned a adolygwyd (ni chyhoeddir y rhain) [anfonir copïau at y Clerc a holl aelodau'r Cyngor Tref neu'r Cyngor Cymuned perthnasol]

ac

2.6.2 Adroddiad cyffredinol ar y canfyddiadau i'r 40 Cyngor Tref a Chymuned - mae hyn er mwyn cynorthwyo pob Cyngor Tref a Chymuned trwy rannu arfer da a nodi materion cyffredin y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy [heb nodi nac enwi Cyngor Tref na Chyngor Cymuned unigol]. Gellir gweld copi o'r llythyr a anfonwyd yn dilyn adolygiad 2018/2019 [yma](#).

3. ADOLYGIAD 2020-2021

3.1 Y Broses

3.1.1 Oherwydd y pandemig coronafeirws, ni fydd yn bosib dilyn y broses a fabwysiadwyd yn flaenorol gan na ellir trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb / rhannu dogfennau papur. Felly bydd angen i'r Pwyllgor Safonau benderfynu sut y bydd yn cynnal yr adolygiadau hyn mewn ffordd wahanol.

3.1.2 Mae rhai opsiynau posib yn cynnwys:

3.1.2.1 gofyn am ddogfennau yn electronig gan y Clercod a threfnu cyfarfod rhithwir (dros 'Teams' neu 'Zoom') gyda'r Clerc perthnasol; neu

3.1.2.2 cynnal adolygiad bwrdd gwaith yn unig; yn seiliedig ar y wybodaeth a gyhoeddir ar wefan y Cyngor Tref neu Gymuned, gan holi'r Clerc yn uniongyrchol wedyn ynghylch unrhyw faterion sy'n weddill trwy anfon llythyr neu drefnu cyfarfod rhithwir; neu

3.1.2.3 gofyn i'r Cyngor Tref neu Gymuned lenwi Holiadur, sy'n cynnwys cwestiynau mewn perthynas â'r materion a godwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau fel rhai yr oedd angen rhoi sylw pellach iddynt (fel y nodwyd yn y llythyr canfyddiadau y cyfeirir ato ym mharagraff 1.2 a 2.6.2 uchod).

3.1.3 Efallai y bydd gennych awgrymiadau eraill hefyd ynghylch sut y gellir cyflawni hyn yn llwyddiannus mewn ffordd arall. Gall y Pwyllgor drafod yr holl opsiynau a bydd angen iddo ddod i farn ar ba ddull i'w fabwysiadu.

3.2 Dewis

3.2.1 Mae 5 Cyngor Tref a 35 Cyngor Cymuned yn Ynys Môn.

3.2.2 Bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch pa Gyngorau Tref / Cymuned i'w hadolygu.

3.2.3 Ar gyfer Adolygiad 2016/2017, adolygwyd dau Gyngor Tref a dau Gyngor Cymuned. Ar gyfer Adolygiad 2018/2019, adolygwyd y pum Cyngor Tref.

3.2.4 Oherwydd adnoddau, mae'n debygol y bydd y Pwyllgor yn parhau â'r trefniant blaenorol, sef bod yr adolygiadau'n cael eu cynnal mewn sampl o'r Gyngorau Tref a Chymuned (yn hytrach na phob un o'r 40). Ond, bydd angen i'r Pwyllgor gytuno ar hyn.

3.2.5 Rhaid i'r penderfyniad ynghylch pa Gyngorau Tref a Chymuned sy'n cael eu dewis i'w hadolygu fod yn broses deg. Yn y gorffennol mae'r data a ystyriwyd gan y Pwyllgor i wneud y penderfyniad wedi cynnwys (A) lefel y praeseptau, (B) presenoldeb yn y Fforwm Gyngorau Tref a Chymuned yn ystod y 12 mis diwethaf, (C) cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru lle mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu ymchwilio iddynt yn ystod y 12 mis diwethaf, ac (Ch) ymatebion a dderbyniwyd i ohebiaeth a anfonwyd gan y Pwyllgor Safonau. Nid oes unrhyw ffigyrau ar gyfer B ac Ch i ddibynny arnynt am y 12 mis diwethaf, ac mae'r ateb i C yn sero. Mae'r wybodaeth ar gyfer A h.y. y rhestr o braeseptau (a dderbynnir gan bob Cyngor Tref a Chymuned) wedi'i chynnwys fel **Atodiad 1**. Nodir hefyd ar y tabl hwn yn **Atodiad 1** y Gyngorau Tref a Chymuned hynny y mae'r Pwyllgor Safonau wedi eu hysbysu o'r blaen na fyddant yn cael eu hadolygu oherwydd eu cydweithrediad â'r Pwyllgor.

3.2.6 Gall y Pwyllgor ofyn i gael ffynonellau eraill o wybodaeth i'w gwyn cynorthwyo i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch pa Gyngorau i'w hadolygu.

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'i atodiadau.

4.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau gadarnhau -

4.2.1 ffurf yr adolygiadau; a

4.2.2 pa Gyngorau Tref a Chymuned y mae'n dymuno eu hadolygu, a pha aelodau o'r Pwyllgor Safonau fydd yn cynnal yr adolygiad hwnnw

4.3 Unwaith y bydd penderfyniad yn cael ei wneud mewn perthynas â 4.2 uchod, cytunir ar amserlen ar gyfer yr adolygiad gyda Chlerc pob Cyngor Tref / Cymuned a ddewiswyd.

PLWYF / PARISH	PRAESEPT / PRECEPT 2020/2021	WEDI CADARNHAU DIM ADOLYGIAD Y TRO HWN OHERWYDD CYDWEITHREDIAD / INFORMED NO REVIEW DUE TO CO-OPERATION
AMLWCH	99,134.88	X
BIWMARES / BEAUMARIS	29,343.10	
CAERGYBI / HOLYHEAD	509,891.00	
LLANGFNI	175,183.36	
PORTHAETHWY / MENAI BRIDGE	97,000.00	
LLANDDANIEL	9,250.00	
LLANDDONA	6,925.00	X
CWM CADNANT	31,500.00	
LLANFAIRPWLL	48,000.00	
LLANFIHANGEL ESCEIFIOG	18,750.00	
BODORGAN	11,500.00	
LLANGOED & PENMON	11,697.00	X
LLANGRISTIOLUS & CERRIGCEINWEN	8,000.00	X
LLANIDAN	12,062.44	
RHOSYR	26,400.00	
PENMYNYDD & STAR	7,500.00	X
PENTRAETH	13,000.00	
MOELFRE	11,496.90	
LLANBADRIG	27,525.00	X
LLANDDYFNAN	9,500.00	X
LLANEILIAN	13,018.63	X
LLANERCHYMEDD	17,492.97	
LLANEUGRAD	4,000.00	
LLANFAIR MATHAFARN EITHAF	54,185.00	
CYLCH Y GARN	7,000.00	
MEHELL	10,000.00	
RHOSYBOL	8,000.00	
ABERFFRAW	6,500.00	
BODEDERN	14,000.00	
BODFFORDD	11,000.00	
TREARDDUR	36,000.00	
TREF ALAW	6,745.00	
LLANFACHRAETH	8,074.00	
LLANFAELOG	40,000.00	
LLANFAETHLU & LLANFWROG	5,750.00	
LLANFAIRYNEUBWLL	17,000.00	
Y FALI / VALLEY	33,941.00	X
BRYNGWRAN	11,000.00	X
RHOSCOLYN	4,000.00	
TREWALCHMAI	8,500.00	X